

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Hydref 2015

Rhif 459

50c

Newidiadau ym Methesda?

Beth sydd o'n blaenau yn y Dyffryn o safbwynt 3 adeilad amlwg a phwysig yn y fro?



Capel Bethania Bethesda. A oes dyfodol?

Deallwn fod Cyfarfod Eglwys pwysig yn cael ei alw ar ddydd Sul, 18 Hydref, i drafod y sefyllfa ym Methania. Mae costau sylweddol ar yr adeilad, a nifer yr aelodau wedi gostwng yn arw dros y blynnyddoedd diwethaf. Dymunwn yn dda iddynt yn eu trafodaethau.

Canolfan Cefnfaes a Llyfrgell Bethesda. Pa ddyfodol?



Yn wyneb toriadau enbyd llywodraeth Llundain i gyllid llywodraeth Cymru, mae 'r Cyngorau Sir yn dioddef yn ariannol ac yn cael eu gorfodi i wneud arbedion o filiynau o bunnoedd. Yn rhan o'r arbedion hyn mae'r Cyngorau Sir yn cael gwared ar ei hadeiladau ac asedau eraill sydd yn gostus i'w rhedeg.



Llyfrgell Bethesda

Mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Cymuned Bethesda wedi bod yn trafod dyfodol Canolfan Gymdeithasol Cefnfaes a Llyfrgell Gyhoeddus Bethesda. Mae Cyngor Bethesda yn awyddus i Gyngor Gwynedd drosglwyddo Cefnfaes i'w gofal ac i wasanaeth llyfrgell fod ar gael i bobl yr ardal.

Parhad ar dudalen 2

Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen

**Nos Wener, 20 Tachwedd
6.00pm
yn Neuadd Ogwen**

Seremoni'r Orsedd,
Cystadleuthau'r Corau
Unawdau Lleisiol ac Offerynnol a
Chystadleuthau i Ysgolion
Uwchradd

**Nos Sadwrn 21 Tachwedd,
10.00am
yn Ysgol Dyffryn Ogwen**

Gwledd o gystadleuthau Cynradd:
Canu, Llefaru, Dawns, Celf a
Chrefft

Dewch yn Llu

Tu mewn: Hanes Côr y Penrhyn yn concro America

Llais Ogwan

PANEL GOLYGYDDOL

Derfel Roberts

☎ 600965

hylaw@btinternet.com

Ieuan Wyn

☎ 600297

cylch@tiscali.co.uk

Lowri Roberts

☎ 600490

l.roberts11@btinternet.com

Dewi Llewelyn Siôn

☎ 07940 905181

dewision@hotmail.co.uk

Fiona Cadwaladr Owen

☎ 601592

Fiona@fowen.wanadoo.co.uk

Siân Esmor Rees

☎ 600427

sian_esmor@btinternet.com

Neville Hughes

☎ 600853

nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan

☎ 602440

dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard

☎ 07402 373444

trystanrp1@gmail.com

Walter W Williams

☎ 601167

waltermenai@yahoo.co.uk

SWYDDOGION

Cadeirydd:

Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT ☎ 602440

dewimorgan@live.co.uk

Trefnydd Hysbysebion:

Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA
☎ 600853

nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:

Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH
☎ 601415

garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:

Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ ☎ 600872

godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais Drwy'r Post:

Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN ☎ 600184

post@llaisogwan.com

Mae Llais Ogwan ar werth yn y siopau isod yn Nyffryn Ogwen:

Londis, Bethesda

Siop Ogwen, Bethesda

Cig Ogwen, Bethesda

Tesco Express, Bethesda

Siop y Post, Rachub

DYDDIADUR Y DYFFRYN

Hydref

17 Bore Coffi Sefydliad y Merched Carneddi. Cefnfaes. 10.00 – 12.00

17 Cyngerdd Seindorf Deiniolen. Neuadd Ogwen am 7.00

22 Noson Reslo. Neuadd Ogwen am 7.00

24 Bore Coffi Apêl Ffoaduriaid Syria. Neuadd Ogwen am 10.00.

27 Cangen Plaid Cymru Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.00.

28 Clwb Hanes Rachub. Dr. J. Elwyn Hughes. Festri Carmel am 7.00.

29 Merched y Wawr Bethesda. Dr. Wiliam Roberts. Cefnfaes am 7.00.

31 Bore Coffi Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Neuadd Ogwen. 10.00 – 12.00.

31 Sêl Pen Bwrdd. Llys Dafydd. 9.30 – 12.30.

Tachwedd

02 Merched y Wawr Tregarth. Festri Shiloh am 7.30.

05 Sefydliad y Merched Carneddi. Cyf. Blynnyddol a Swper Cynhaeaf. Cefnfaes am 7.00.

07 Bore Coffi Merched y Wawr Bethesda. Neuadd Ogwen . 9.30 – 12.00

09 Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen. Festri Jerusalem am 7.00.

11 Cyfarfod Blynnyddol y Caban Gerlan. Y Caban am 7.00.

12 Cangen Plaid Lafur Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.30.

12 Y Gymdeithas. Festri Jerusalem am 7.00.

13 Noson “Bendithion Cymysg”. Canolfan Glasinfryn am 6.30.

14 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.30.

18 Cyfarfod Blynnyddol Llais Ogwan. Cefnfaes am 7.30.

19 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45.

20 Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen. Neuadd Ogwen am 6.00.

21 Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen. Ysgol Dyffryn Ogwen am 10.00 y bore.

24 Cangen Plaid Cymru Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.00.

25 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 6.00 – 9.00.

28 Ffair Nadolig y Blaid Lafur. Neuadd Ogwen.

Golygydd y Mis

Golygwyd y mis hwn gan Neville Hughes.

Golygydd mis Tachwedd fydd Derfel Roberts, Llys Artro, 84 Ffordd Carneddi, Bethesda, LL57 3SG. 01248 600965.
hylaw@btinternet.com

Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher, 04 Tachwedd, os gwelwch yn dda. Plygu nos Iau, 19 Tachwedd, yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

Rhoddion i'r Llais

£5.00 Di-enw, Llandygái.

£20 Er cof annwyl am Norman a fuasai yn 80 ar 11eg o Dachwedd, gan Jess, Hefin a Sioned.

Diolch yn Fawr

Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Gwobrau Hydref

£30.00 (165) Meirwen Williams, Gaerwen.

£20.00 (112) Rhian Jones, Gerlan.

£10.00 (85) Fflur Roberts, Garneddwen, Bethesda.

£5.00 (90) Carys Williams, Tal y Cae, Tregarth

Archebu Llais Ogwan drwy'r Post

Gwledydd Prydain - £20

Ewrop - £30

Gweddill y Byd - £40

Owen G. Jones,
1 Erw Las,
Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN



post@llaisogwan.com

☎ 01248 600184

Canolfan Cefnfaes (parhad o dudalen 1)

Mae Canolfan Cefnfaes wedi bod yn adnodd gwerthfawr i ni ym Methesda, yn croesawu ac yn cartrefu pob math o gymdeithasau a gweithgareddau. Er, efallai, y byddai'n rhaid addasu a newid y defnydd o'r adeilad byddai'n ddiwrnod trist iawn pe byddai'n cael ei werthu ar y farchnad agored. Mae yna lawer o ffordd i fynd eto cyn y gwelwn benderfyniad terfynol ar y mater. Llawer o waith trafod eto, ymgynghori a'r bobl leol, siarad hefo Pwyllgor Rheoli Cefnfaes, paratoi cynlluniau ac amcangyfrif y costau.

Dymunwn pob rhwyddineb gyda'r trafod gan obeithio gweld llwyddiant, er lles y dyffryn, yn y pen draw!

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Bryn yn swyddfa'r deillion, Bangor

☎ 01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415

Neville Hughes ☎ 600853

Siop Ogwen, Bethesda (drws nesaf i'r Neuadd)

Dyma le hwylus i chi adael eitemau ar gyfer Llais Ogwan

Newyddion, lluniau, hysbysebion ac ati.

Dim ond eu rhoi mewn amlen wedi ei gyfeirio at Llais Ogwan (Cofiwch nodi eich enw a'ch rhif ffôn.

Gallwch brynu copi o'r Llais yno hefyd.

Cyhoeddir gan Bwyllgor Llais Ogwan @Llais_Ogwan

Cysodwyd gan Tasg, 50 Stryd Fawr Bethesda, LL57 3AN ☎ 07902 362 213

post@tasg.co.uk

Argraffwyd gan Wasg Ffrancon, Dôl Ddafydd, Bethesda LL57 3LY

☎ 01248 601669

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Annwyl Olygydd

Annwyl Olygydd

Y mis yma mae Cadwch Gymru’n Daclus, un o elusennau mwyaf Cymru, yn gofyn i bobl gymryd rhan mewn un o ymgyrchoedd glanhau mwyaf Cymru, sef Tacluswch.

Rydyn ni’n lwcus iawn ein bod yn byw mewn gwlad brydferth, ond yn anffodus mae dal canran bach o bobl sydd ddim yn parchu neu yn edrych ar ôl eu cymunedau a dyma lle mae sbwriel yn broblem.

Mae gan Cadwch Gymru’n Daclus neges syml a chlir - gadewch i ni weithio gyda’n gilydd i helpu i gadw ein mannau yn daclus ac yn hardd. Mae Tacluswch yn rhoi’r cyfle i bawb i gymryd rhan, p’un a ydych yn wirfoddolwr profiadol neu dyma’r tro cyntaf i chi gymryd rhan mewn gweithgaredd.

Yn ddiolch i rodd bagiau untro 5c cwsmeriaid Tesco, rydyn ni’n rhoi pecynnau Tacluswch yn rhad ac am ddim! Mae’r pecyn yn cynnwys llawer o wybodaeth ac offer gwerthfawr fel bod pawb yn gallu gweithredu. P’un a ydych yn wirfoddolwr profiadol neu a dyma’r tro cyntaf i chi gymryd rhan mewn gweithgaredd, cofrestrwch ar ein wefan am becyn Tacluswch AM DDIM: www.cadwchgymrundaclus.org/taclus neu ebostiwch betidy@keepwalestidy.org.

Diolch yn fawr a phob lwc gyda’ch digwyddiadau!

Lesley Jones
Prif Weithredwr
Cadwch Gymru’n Daclus

6, Hendyrpeg
Tregarth
LL57 4NN

Ffôn: 01248602140/07810476407
E-bost: jan.jones6@hotmail.co.uk

Annwyl Olygydd

Mae’n bur debyg bod rhai o’ch darllenwyr yn mynychu’r Clwb Celf a Chrefft yn Caban, Brynrefail ar fore dydd Mawrth. Mae hwn yn Glwb hynod lwyddiannus a chymdeithasol, ac yn wir, yn ran o’r wythnos mae’r aelodau’n edrych ymlaen ato’n eiddgar.

Yn dilyn llwyddiant Ffair Grefftau Nadolig a gynhaliwyd yn Caban y llynedd, mae rhai o’r aelodau’n trefnu Ffair Grefftau eto eleni, am ddeuddydd y tro hwn. Bydd y Ffair yn cael ei chynnal yn Caban, Brynrefail, ddydd Sadwrn, Tachwedd 14eg, a ddydd Sul, Tachwedd 15ed, rhwng 10 y bore a 4 y prynhawn. Bydd cyfle i brynu anrhegion unigryw o safon uchel gan nifer o grefftwyr lleol, gan gynnwys gemwaith, cardiau, darnau o waith celf, a thecstiliau. Bydd cyfle hefyd, wrth gwrs, i gael paned a chacen yng nghaffi Caban fydd ar agor gydol y 2 ddiwrnod.

Bydd mynediad i’r Ffair yn rhad ac am ddim, a bydd croeso i bob un wnaiff alw heibio. Dewch yn llu i gefnogi!

Gyda diolch,
Janice Jones

Canolfan Wasanaethau Lleol
Cyngor Ar Bopeth a Mwy

Mae swyddfa Partneriaeth Ogwen yn brysur ddatblygu yn ganolfan wasanaethau lleol i nifer o asiantaethau sydd eisiau cynnig gwasanaeth i bobol Dyffryn Ogwen. Ers agor ym mis Tachwedd y flwyddyn diwethaf, rydym wedi cydweithio â nifer o asiantaethau, yn cynnwys y canlynol: Heddlu Gogledd Cymru, Cyngor ar Bopeth, Cymorth i Ferched, Grŵp Cynefin, Cynllun Nyth/Nest Llywodraeth Cymru ac Undeb Credyd Gogledd Cymru.

Am 9.30 ar 17 Medi, agorwyd gwasanaeth personol Cyngor ar Bopeth yn ein swyddfeydd. Bydd y sesiynau galw i mewn wythnosol newydd yn rhoi cyfle i bobl Bethesda gael cyngor ar ystod eang o bynciau yn gyfrinachol ac yn rhad ac am ddim. Mae staff Cyngor ar Bopeth yn cael eu hyfforddi i roi cyngor ar bron unrhyw broblem, yn cynnwys: budd-daliadau, problemau ariannol a chredyd, cyflogaeth, addysg a gofal iechyd a hawliau dynol a mwy.

Yn ôl Jackie Saleh o Gyngor ar Bopeth Gwynedd a Môn: “Rydym yn cyflwyno’r holl ffeithiau i’r cleientiaid gan eu helpu i ddeall y sefyllfa fel bo modd i bobl wneud penderfyniadau clir sy’n iawn iddyn nhw. Os bydd angen hefyd, rydym yn hapus i gynnig cymorth ymarferol, fel helpu efo llenwi ffurflenni, ysgrifennu llythyrau neu drafod gyda thrydydd parti.”

Mae Undeb Credyd Gogledd Cymru wedi darparu gwasanaeth casglu yn swyddfa’r Bartneriaeth ers rhai misoedd bellach. Mae’r gwasanaeth, sy’n cael ei redeg gan wirfoddolwyr lleol yn cynnwys agor cyfrifon aelodaeth newydd a chasglu cynilion. Undeb Credyd Gogledd Cymru yw’r banc cymunedol mwyaf yng ngogledd Cymru. Mae’r Undeb yn ymhyfrydu ym mha mor wahanol ydyn nhw i’r banciau mawr.

Meddai Alastair Wilkinson, Undeb Credyd Gogledd Cymru. “Banc cymunedol dan berchnogaeth ein haelodau yw’r Undeb Credyd ac mae unrhyw elw yn cael ei ail-fuddsoddi i wella gwasanaethau ac ad-dalu unrhyw arian sy’n weddill fel dididend i’n haelodau yn flynyddol. Mae’n wych gallu cydweithio â Phartneriaeth Ogwen i ddarparu gwasanaeth ym Methesda.”

Ar yr 17eg o Fedi hefyd, daeth cwmni cyfreithwyr Hugh James i’n swyddfeydd i gynnal clinig cymorth cyfreithiol i drigolion yr ardal.

Yn ogystal â datblygu’r ganolfan wasanaethau, mae’r Bartneriaeth yn datblygu nifer o brosiectau cymunedol eraill yn Nyffryn Ogwen. Un o’r rhai pwysicaf yw prosiect Hydro Ogwen ac mae’n braf gallu dweud ein bod wedi derbyn caniatâd cynllunio gan Gyngor Gwynedd. O dderbyn caniatâd i dynnu dwr o’r afon gan Gyfoeth Naturiol Cymru, byddwn yn barod wedyn i gofrestru am dariffau FIT gyda Ofgem a dechrau codi arian i adeiladu’r cynllun. Bydd holl incwm y cynllun Hydro yn cael ei ail-fuddsoddi yng nghymunedau Dyffryn Ogwen ac felly mae’n brosiect pwysig ac arloesol yr ydym yn falch iawn o fod yn ei arwain.

Rydym yn parhau i weithio’n galed â’n partneriaid yn Neuadd Ogwen i ddatblygu Siop Ogwen a mae’n braf gweld cwsmeriaid hen a newydd yn dod dros y trothwy i brynu llyfrau, tocynnau, crefftau a mwy.

Am fwy o wybodaeth am waith Partneriaeth Ogwen, cysylltwch â Phrif Swyddog y Bartneriaeth, Meleri Davies 01248 602131.

Cymdeithas Brodwaith Cymru

Annwyl Olygydd,

Mae Cymdeithas Brodwaith Cymru yn cynnig ysgoloriaeth bob blwyddyn o hyd at £300 i fyfyrwyr Cymraeg sy’n dilyn cwrs tectiliau mewn coleg. Bu nifer o fyfyrwyr yn llwyddiannus yn y gorffennol a phleser oedd cael arddangos peth o’u gwaith ar stondin y Gymdeithas yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Disgwylir i ymgeiswyr fod yn 18 oed a throsodd.

Amcanion y Gymdeithas yw hyrwyddo brodwaith drwy gyfrwng y Gymraeg a threfnir darlithoedd, dosbarthiadau, ac arddangosfeydd mewn ardaloedd ledled Cymru. Diffinir brodwaith fel unrhyw waith sydd yn addurno gan ddefnyddio edau a nodwydd, a cheir amrywiaeth o dechnegau ar gyfer hyn. Y dyddiad cau yw 15 Ionawr 2016.

I gael ffurflen gais neu os am fwy o wybodaeth cysylltwch â: Gwyneth Jones
feidiog12@gmail.com
Gyda diolch,
Gwyneth Jones (Ysgrifennydd)
Feidiog, 12, Maes Tegid, Y Bala LL23 7BF



Swyddfa brysur y Ganolfan

Cyfarfod Blynyddol
Llais Ogwan

yng Nghanolfan Cefnfaes

Nos Fercher
18 Tachwedd
am 7.30 yr hwyr

Croeso Cynnes i Bawb

Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen,
Bryn Meurig Bach,
Coed y Parc, Bethesda,
LL57 4YW ☎ **601592**

Joe Hughes,
Awel y Nant,
Ffordd Ffrydlas, Bethesda
☎ **601902**

Cartref Newydd
Croeso i Joe a Catrin Haf (Serena) i’w cartref newydd yn Stryd Cefnfaes. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein plith.

Pob dymuniad da i Mr. a Mrs. Dylan Roberts, Glanogwen, yn eu catref newydd.

Hefyd i’r teulu newydd i Rhos Buddug.

Deunaw Oed
Ar 16 Medi dathlodd Tomos Parry, Rhos y Coed, ei benblwydd yn 18 mlwydd oed. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da, a hefyd dymuniadau gorau i ti yn y coleg yn Abertawe.

Pen-blwydd Arbennig
Yn ystod mis Medi dathlodd Mr. J. O. Roberts, Allt Pen y Bryn, benblwydd arbennig iawn. Llongyfarchiadau mawr i chi!

Llyfrgell Bethesda
Llongyfarchiadau i’r plant fu’n cwblhau y Sialens Ddarllen ,sef Torri Pob Record, dros gwyliau’r Haf. Byddwch yn derbyn eich medalau yn yr Ysgol cyn bo hir. Da iawn chi!

Rhian Mair Roberts
Dymuna Mrs. Glenys Jones, Adwy’r Nant, a’i meibion, David, Derek a Glyn a’u teuluoedd, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a gawsant yn eu profedigaeth o golli Rhian, merch a chwaer oedd yn annwyl iawn iddynt.

Diolch am y rhoddion hael o £1,600.00 a dderbyniwyd er cof am Rhian tuag at Hospis yn y Cartref. Diolch hefyd i Mr. Gareth Williams am ei wasanaeth trylwyr.

Diolch
Dymuna Ffion a Lee ddiolch i deulu a ffrindiau am eu caredigrwydd yn ystod y misoedd diwethaf, a hefyd am yr anrhegion a dymuniadau gorau ar achlysur eu priodas.

Cydymdeimlo
Anfonwn ein cydymdeimlad at Mr. Vernon Owen, Abercaseg, a’r teulu yn eu profedigaeth o golli brawd ac ewythr annwyl yn Gaerwen.

Ysbyty
Cofion a gwellhad buan i’r rhai fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Da deall eich bod yn gwella a bod rhai ohonoch wedi dychwelyd gartref:-

Mrs. Phyllis M. Parry, Ffordd Ffrydlas; Mrs. Rhiannon Jones, Glanogwen; Mrs. Muriel Williams, Glanffrydlas.

Marwolaeth
Yn dawel yn ei chartref yn 1 Hen Aelwyd, yn 99 mlwydd oed, bu farw Mrs. Blodwen Gibbs, priod y diweddar Mr. Sidney Gibbs, a ffrind i Mrs. Nancy Williams, Blodwen, Junior a’r teulu.

Cynhaliwyd ei hangladd fore Llun, 28 Medi, yn Amlosgfa Bangor gyda’r Barchedig Christina McCrea yn gwasanaethu. Cydymdeimlwn â chwi i gyd yn eich colled a’ch hiraeth.

Ar 8 Medi, yn ei gartref yn Towyn, Abergele, (gynt o Fethesda) bu farw Mr. Andrew Wilson yn 68 oed. Priod annwyl Mrs. Gwerfyl Wilson a thad gofalus Dawn, Ruby, John a Jimmy, a thaid hoffus. Roedd yn fab i’r diweddar Mr. a Mrs. Jim Wilson ac yn frawd annwyl i’w frodyr a’i chwiorydd.

Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Eglwys Crist Glanogwen a Mynwent Coetmor ar 18 Medi, pan ddaeth llu o deulu a chyfeillion o bell ac agos i dalu’r ffarwel olaf iddo. Gwasanaethwyd gan y Ficer, y Parchedig John Mathews. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd.

Cartref Newydd
Croeso cynnes i Geraint ac Eleri Rees, a’r plant, Dafydd a Gruffydd o Creigiau, Caerdydd, i 2 Bryn Caseg. Gobeithiwn y byddwch yn hapus yn eich cartref newydd yn Nyffryn Ogwen.

Penblwydd Arbennig
Dymuniadau gorau i Mrs. Irene Hughes, 11 Glan Ffrydlas, a ddathlodd ei phenblwydd yn 90oed ar 6 Hydref.

Cydymdeimlo
Estynwn ein cydymdeimlad llwyrfa gyda theulu Anwen Evans, a fagwyd yn y Gerlan ac wedyn ym Maes Coetmor. Roedd yn ferch i Richard (Dick) a Dilys Edwards ac yn chwaer annwyl i Lilian a Margaret, sydd rwan yn byw yn Erw Las.

Wedi cyfnod fel nyrs yn Ysbyty Broadgreen Lerpwl priododd â John ac ymgartrefodd yn Llanrug cyn symud i Benisarwaen. Bu’n gweithio yn y byd nyrsio gan ennill gradd wedi iddi fagu teulu, Steffan a Huw ,ei meibion. Er iddi gael salwch blin doedd hi byth yn un am gwyno. Daeth nifer fawr o deulu a ffrindiau i’w hangladd yn eglwys Penisarwaen.

Cydymdeimlwn â John, Steffan, Huw ac Ellie a William Llewellyn, ei chwiorydd Lilian a Margaret a’u teuluoedd, hefyd ei chyfneitherod a’i chefnidryd yn eu profedigaeth lem o golli un annwyl iawn iddynt.

Merched y Wawr

Nos Iau, Medi 24, cynhaliwyd noson agoriadol tymor 2015/2016 yng nghanolfan Cefnfaes. Cyflwynodd y llywydd, Elina Owen, barti talentog o adran gerdd Ysgol Dyffryn Ogwen gyda’u hathro cerdd Hefin Evans i’n diddori. Diolchodd Mr. Evans am y gwahoddiad oedd yn rhoi cyfle i’r bobl ifanc gael llwyfan i ddangos eu doniau. Eglurodd fod y criw wedi gwneud yn rhagorol yn eu arholiadau TGAU ac wedi ennill sawl gradd A* rhyngddynt. Cafwyd rhaglen amrywiol ganddynt o unawdau ac ensamblau lleisiol yn ogystal ag unawdau adloniadol iawn gan Hefin Evans ar yr euphonium. Cyflwynodd Mr Evans yr eitemau yn ddoniol ac ysgafn. Diolchodd i’r criw yn ogystal a’r cyfeilydd Mrs Ilid Jones, a wnaeth gymwynas fawr yn dod yn lle ei merch Angharad Jones. Mae Angharad wedi bod yn helpu'r adran gerdd hefo llwyddiant y côr yn ddiweddar, ond yn methu bod yna oherwydd galwad proffesiynol arall.

Cafwyd lluniaeth bys a bawd helaeth iawn wedi ei gyflwyno yn ddeniadol gan Mrs Margaret Jones a mynegodd ein llywydd ddiolch gwresog iddi ar ein rhan.

Wedi ffarwelio a'r parti cafwyd anerchiad croeso y llywydd. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan bedair aelod ond edrychwn ymlaen at eu gweld yn y cyfarfod nesaf. Llongyfarchwyd pawb a wnaeth yn dda mewn arholiadau, ac anfonwyd negeseuon at rai oedd wedi bod mewn profedigaeth neu waeledd ymysg y teuluoedd dros yr haf. Roedd pawb yn falch o ddeall fod Tom, gŵr Pat Corns, wedi ei ethol yn Gymrawd o'r Academi Brydeinig am ei gyfraniad i hanes llenyddiaeth Saesneg. Rhoddwyd gwobr lwcus gan Mrs Elinor Holland, a'i chwaer Jennie enillodd o.

Trafodwyd dyddiadau ar gyfer y merched sy'n trefnu'r cinio Nadolig ac edrychir ymlaen at y manylion yn fuan. Cyhoeddwyd siaradwr mis nesaf, ac edrychir ymlaen at hynny hefyd.

Sefydliad y Merched, Carneddi

Ar Hydref 1af, wedi wythnos fendigedig o braf, cawsom ein cyfarfod yng nghanolfan Cefnfaes. Fel arfer, rhoddodd Margaret Williams groeso cynnes iawn i bawb a braf oedd gweld Gwen Davies yn ôl .Fe roddodd groeso arbennig i ddwy aelod newydd i’r sefydliad sef Mrs. Vera Morgan a Mrs. Blodwen Cavanagh. Gobeithio y byddant yn hapus yn ein mysg .Cafwyd ychydig o ymddiheuriadau ond serch hynny yr oedd criw da wedi dod ynghyd .Mae ein cofion yn mynd at Dilys Williams, chwaer Jean, wedi iddi gael codwm a bod yn yr ysbyty. Brysiwch wella Dilys!



Sefydliad y Merched, Carneddi, yn dathlu 100 mlwyddiant yn y ffederasiwn yng Nghlwb Golff Caernarfon.

Diolchwyd yn fawr iawn i Margaret am drefnu cinio dathlu y Sefydliad yng Nghlwb Golff Caernarfon ar 16 Medi, sef diwrnod dathlu 100 mlwyddiant y Sefydliad yn gyffredinol . Yr oedd y bwyd yn fendigedig a phawb wedi mwynhau yn fawr iawn. Cawsom dynnu llun o’r aelodau i gyd fel y gwelir uchod. Darllenwyd y cofnodion gan Gwyneth Morris ac aeth Margaret yn ei blaen i ddarllen y llythyr misol.

Y gŵr gwadd oedd Gerallt Williams, brodor o’r Gwernydd, Gerlan, ond yn byw yn Nhregarth erbyn hyn. Mae wedi bod yn yr awyrlu am rhai blynyddoedd fel cogydd, ond yn awr yn gweithio fel darlithydd coginio yng Ngholeg Menai, Bangor .Ei gyflwyniad i ni oedd amryw o ddanteithion bach i’w bwyta cyn prif gwrs gyda gwydriad o champagne !!! Cawsom flas y bwyd ond dim Champagne chwaith !! Mae llawer o waith paratoi o flaen llaw i’w wneud ond yr oedd Gerallt yn hen gyfarwydd â hyn, ac i ddarfod ‘roedd wedi gwneud “profiterols “ wedi eu gweini â saws siocled blasus dros ben.

Diolchwyd i Gerallt gan Jean, ac i’r merched am y baned. Rhoddwyd y wobwr lwcus gan Nancy Thomas a’r enillydd oedd Violet Williams.

Diolch

Dymuna John, Mary a Douglas ddiolch i bawb am eu cydymdeimlad a’u caredigrwydd yn eu profedigaeth o golli mam, Phyllis (Adwy’r Nant). Hefyd, diolch o galon i Claire, Carol, Diane a Catherine ac i ddoctoriaid a nyrsus Bethesda. Diolch yn fawr hefyd i’r ymgymerywyr, H. O. Davies.

Penblwydd Arbennig

Dymuniadau gorau i Hannah, Glanogwen, ar ddathlu ei phenblwydd yn 21 mlwydd oed. Penblwydd hapus a chariad mawr oddi wrth Mam, Meth a Cadi Haf. X. Hoffai Hannah ddiolch yn fawr i bawb a fu mor ffeind wrthi ar yr achlysur hwn.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau mawr i Awen Angharad Jones o 4 Cil Caseg am iddi ennill Gradd Anrhydedd Dosbarth Cyntaf mewn Hanes, a hefyd am ennill Gwobr Blanche Elwy Hughes a roddwyd i’r myfyriwr gorau yn yr Ysgol Hanes.

“Tough Mudder”



Yn mis Medi cymerodd Bethan Williams, Ceri Ogwen, Sian Elin, Caryl Williams ac Ellie Lilly ran mewn cystadleuaeth oedd yn eu gwrthio yn enbyd. Roeddynt yn gorfod cwblhau cwrs 11 milltir drwy dwneli bach, waliau uchel, bath rhew, siociau trydanol a llwyth o fwd. Hwyl, dwn i ddim, ond roeddent yn gwenu'n braf ar y diwedd.

Llongyfarchiadau am roi eich hunain drwy'r fath artaith. Nid ar chwarae bach y gwnaethpwyd hyn, a llwyddwyd i gasglu £1,200 at achos Ymchwil Leukemia.

Dewiswyd yr elusen hon gan Bethan wrth bod ei modryb sef Bethan Twigge Jones o Maes yr Athro, a gwraig Gerallt, wedi bod yn cwffio y salwch yma dros y flwyddyn ddiwethaf. Hoffa'r genod ddiolch i bawb sydd wedi eu nodd. Llongyfarchiadau i Lois, Ysgol Pen-y-bryn hefyd am gwblhau'r “ mini mudder”. Llongyfarchiadau i chi i gyd yn wir! Rydych wedi cyflawni camp arbennig iawn.

Gorffwysfan

Ddydd Mercher, 9 Medi, aeth aelodau a chyfeillion Gorffwysfan ar wibdaith - i lawr i Ddolgellau yn gyntaf , lle cafwyd coffi. Wedyn ymlaen i’r Trallwng (Charlie’s) a dychwelyd gartref trwy Llangollen, Corwen a Betws y Coed. Cafwyd gair o groeso a diolch ar y bws gan ein cadeirydd, Mr. Elfed Bullock. Da oedd cael cwmni Elfed ar y wibdaith wedi cyfnod yn yr ysbyty.

Cofiwch am y wibdaith nesaf, sef dydd Mercher, 4 Tachwedd, - i’r Wyddgrug yn y bore ac yna i Brestatyn. Cofiwch alw yn Gorffwysfan i roi eich enwau ar y rhestr os gwelwch yn dda.

Da deall fod Mrs. Alice Jones, Tan y Garth wedi gwella ac wedi cael dod gartref. Cofion cynnes atoch Alice!

Eglwys Crist, Glanogwen

Cynhelir Gwasanaethau fel a ganlyn:

Sul Cyntaf pob mis

Cymun Bendigaid – 8.00yb
Boreol Weddi – 11.00yb
Ail a thrydydd Sul pob mis - Cymun Bendigaid Cymraeg – 11.00yb
Pedwerydd Sul pob mis - Cymun Bendigaid dwyieithog – 11.00yb
Pumed Sul - Gwasanaeth ar y cyd gyda Mynydd Llandegai a Phentir (Lleoliad i’w gyhoeddi)
Pob bore Mercher am 10.30ayb - Cymun Bendigaid

Gweithgareddau Codi Arian

Bore Coffi, Cefnfaes – Mis Medi 12fed.Cynhaliwyd Bore Coffi llwyddiannus iawn yng Nghanolfan Cefnfaes a gwnaethpwyd elw o yn agos i £400. Diolch i bawb a fu yn cynorthwyo ac yn cefnogi. Diolch arbennig i Mrs Barbara Owen am y trefniadau.

Ffarwelio

Cynhaliwyd y Gwasanaeth Cymun olaf ar fore Mercher, Medi 30 o dan arweiniad Y Canon Idris Thomas. Mae Idris wedi bod yn gwasanaethu yn Eglwys Glanogwen ers tair blynedd a hanner. Roedd yn arwain y Gwasanaeth Cymun uniaith Gymraeg ar yr ail a’r trydydd Sul pob mis, a’r gwasanaeth Cymun pob bore Mercher. Gyda thristwch mawr, rhaid cyhoeddi fod ei wasaneth i Eglwys Crist Glanogwen wedi dod i ben. Bydd yn chwith mawr i ni i gyd oherwydd roedd pawb yn mwynhau ei wasanaethau gyda’i ddull unigryw ac urddasol ei hun i gynnal gwasanaethau bendithiol iawn. Roedd ganddo rhywbeth newydd ac arbennig i’w gynnis ym mhob gwasanaeth a mawr fydd y golled i aelodau Eglwys Glanogwen. Diolchwn iddo o waelod calon am yr oll y mae wedi ei gyfrannu i ni yn yr Eglwys hon. Pob bendith i chi Idris, ac i’ch gwraig, Ann a oedd hefyd yn ffyddlon iawn yn y gwasanaethau.

Diolch

Rhaid i ni fel aelodau ddiolch yn fawr iawn i Arwel Roberts am ei waith gwirfoddol o dorri’r gwair ar y tir o flaen yr Eglwys sydd wrth y Ffordd Fawr. Mae Arwel hefyd yn

ddistaw a dirwgnach yn tacluso’r tir o gwmpas yr Eglwys hefyd. Diolch Arwel am dy waith, rydym yn gwir werthfawrogi yr hyn rwyf yn ei wneud.

Dymuniadau Gorau

Erbyn hyn, mae llawer o blant a phobl ifanc ein plwyf yn wynebu newidiadau newydd yn eu bywyd. Mae rhai wedi cychwyn ar eu gyrfa ysgol am y tro cyntaf, eraill wedi symud dosbarth neu symud i ysgol uwchradd neu i golegau. Mae rhai eraill wedi dechrau gwaith am y tro cyntaf ac eraill wedi gorfod gadael cartref. Pa bynnag newid sydd wedi digwydd neu pa bynnag lwybr sydd wedi cael ei ddewis, fe ddymunwn bob llwyddiant a bendith iddynt un ac oll. Mae yna nifer o aelodau yn cwyno oherwydd amrywiol anhwylderau. Dymunwn adferiad llwyr a buan i chwi gan fawr obeithio y byddwch cyn hir yn medru mynychu rhai o’r gwasanaethau.

Dalier Sylw

Er na fydd y Canon Idris Thomas gyda ni o hyn ymlaen, mae’r Gwasanaeth Cymun ar fore Mercher yn parhau, ac fe fydd y Gwasanaeth Cymun ar yr ail a’r trydydd Sul yn parhau i fod yn uniaith Gymraeg yn ôl addewid a wnaethpwyd gan y Parchedig John Matthews.

Capel Bethania

Gwasanaethau

Hydref

18 Parchg. Gwynfor Williams.

Tachwedd

01 Parchg. Reuben Roberts.
15 Parchg. Gwynfor Williams.

**Oedfaon am 5.30 o’r gloch
Croeso cynnes i bawb**

Yr Eglwys Unedig

Mae tymor yr Hydref wedi dod unwaith eto, gyda’r gweithgareddau yn ail gydio. Mae’r Ysgol Sul a’r Clwb Nos Fawrth yn ôl – braf eu gweld i gyd yn brysur yn yr Ysgol Sul a’r Clwb. Cynhaliwyd Noson Goffi llwyddiannus iawn gan y Clwb Nos Fawrth, gydag elw sylweddol o £290.00 tuag at gludiant y nwyddau i’r ffoaduriaid. Diolch yn fawr i’r aelodau am eu hymroddiad a’u gwaith caled, a’r athrawon hefyd oedd yn cynorthwyo.

Mae’r oedfaon yn dal yn fendithiol iawn, gydag oedfa gymun dan ofal y Parchedig Gerallt Lloyd Evans ym mis Medi. Oedfa dan ofal Mrs. Mererid Mair Williams oedd ar fore Sul, 6 Medi, ac ‘roedd ymateb y plant a’r oedolion yn ardderchog. Miss Karen Owen oedd yn arwain oedfa wych arall yng nghyfarfod yr hwyr. Rydym yn ffodus iawn yn wir i gael yr oedfaon a’r pregethwyr hyn! Mae ffrindiau’n ymuno â ni hefyd, ac rydym yn falch iawn o’u gweld.

Anfonwn ein cofion at Mrs. Muriel Williams, Glanffrydlas, yn Ysbyty Eryri a Mrs. Betty Owen a Mrs. Glenys Clarke yng Nghartref Cerrig yr Afon, ac at bawb sydd yn methu dilyn ein hoedfaon oherwydd afiechyd.

Cafwyd Bore Coffi llwyddiannus eto ar 3 Hydref yng Nghanolfan Cefnfaes i godi arian tuag at brynu boiler dŵr i’r capel. Diolch i bawb am eu cefnogaeth a’u haelioni a’u cymorth. Gwnaed elw o £390.00. Braf oedd gweld Eurwen a Dafydd Morris wedi medru dod i’r digwyddiad – a bod Dafydd yn dal i wella!

Cyhoeddiadau’r Sul

Hydref 18 Parchg. EifionWyn Williams.
Hydref 25 Parchg. I. Lloyd am 10yb.
Parchg. Gwenda Richards am 5yh.
Tachwedd 1 Parchg. John Owen, Rhuthun.

Tachwedd 8: Miss Nerys Jackson.
Tachwedd 15: Parchg. Dafydd Coetmor Williams.
Tachwedd 22: Parchg. W. H. Pritchard.
Tachwedd 29: Parchg. Gwyndaf Jones.

Cynhelir ein hoedfa Ddiolchgarwch ar y dydd Llun dan ofal Walter a Menai Williams. Mae Côr y Dyffryn wedi ail-ddechrau ymarfer bob nos Sul am 6.15yh – ar gyfer y Nadolig. Mae amryw o gymdeithasau wedi llogi’r ystafelloedd, ac os oes angen gwybodaeth cysyllter â Mr. Walter Williams, Ysgrifennydd.

Rachub a Llanllechid

Dilwyn Pritchard,
Llais Afon, 2 Bron Arfon,
Rachub
LL57 3LW
☎ **601880**

Clwb Hanes Rachub.
Cafwyd dechreuad gwych i drydydd tymor Clwb Hanes Rachub a Llanllechid. Daeth Mr. Wyn Roberts (Tanybwllch) i roi cyflwyniad i'r aelodau am hanes rhai o hen gymeriadau'r ardal, yn ogystal a nifer helaeth o hanesion am arferion, helyntion a throeon trwstan!

Mae cof Mr Roberts am ddyddiadau, digwyddiadau, enwau ffermydd, caeau, a phob math o fanylion yn anhygoel, a'r cyfan yn cael ei gyflwyno mor naturiol.

Roedd rhai delweddau'n tanio'r dychymyg, - yn eu plith, ymladd ar Sgwâr Rachub yng nghyfnod y Streic Fawr, chwant arbennig Jac Huws Rachub am fwyd, lluo o fulod bach yn cario llechi, John P. yn creu colur o huddug, William Griffith Hen Barc yn dangos ei gerdd i ddefaid William Morgan yng nghwt barbar Lôn Groes, a hanes y person cyntaf gafodd ei fedyddio'n answyddogol yng Nghapel Bethel!

Cofiwch am ein cyfarfod nesaf [Hydref 28], pan fydd Dr J Elwyn Hughes yn dangos lluniau o'r ardal.

Cydymdeimlo
Ar Fedi 26 daeth y newydd trist am farwolaeth Mrs Olive Williams, mam, nain a hen nain annwyl, gynt o Ffordd Llanllechid a hithau'n 88 mlwydd oed. Anfonwn gydymdeimlad at Sheila, Brenda ac Ellen a'r teulu oll yn eu profedigaeth. Bu Mrs Williams yn derbyn gofal yng Nghartref Elen yn Amlwch ers rhai blynedd ers iddi golli ei hiechyd. Bu'r gwasanaeth angladd yng Nghapel Carmel, lle bu Mrs Williams yn aelod ffyddlon am flynyddoedd lawer, yng ngofal y Parchedigion John Pritchard a Dafydd Coetmor Williams.

Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd at Jean a Derek Hughes, Maes Bleddyn, a Sylvia Williams, Bron Bethel, ar achlysur trist marwolaeth Margaret Rose yn y Gerlan, cyfneither i Jean a Sylvia..

Clwb Llanllechid
Medi 23 oedd dyddiad cyfarfod cyntaf y Clwb am y tymor newydd. Daeth rhai o'r aelodau a chelfi hanesyddol o'u cartref a buont yn adrodd eu hanes a chafwyd prynhawn difyr. Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 21 yn Festri Carmel. Bydd croeso i aelodau newydd ddod yno.

Gwaeledd
Anfonwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan at nifer o drigolion

Capel Carmel

Ysbyty
Anfonwn ein cofion at aelodau a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar, a hefyd at aelodau sy'n sâl yn eu cartrefi. Yn eu plith mae Mrs. Violet Williams, Foelas, Llanrug, Mr. Keith Thomas, Tan y Garth a Mrs. Phyllis M. Parry, Ffordd Ffrydlas.

Profedigaeth
Yn ystod y mis bu farw un o'n aelodau, sef Mrs. Olive Williams, Ffordd Llanllechid (gynt) yn 88 mlwydd oed. Cynhaliwyd ei hangladd ar ddydd Gwener, 25 Medi, gyda gwasanaeth yn y capel dan arweiniad ein gweinidog, y Parchedig D. John Pritchard a'r Parchedig Dafydd Coetmor Williams, gyda Mrs. Helen Wyn Williams wrth yr organ. Yn ein hoedfa ar nos Sul, 27 Medi, cafwyd gair o deyrnged i Mrs. Olive Williams gan lywydd y mis, Mrs. Helen Wyn Williams. Cydymdeimlodd â'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain garedig.

CARMEL - YR YSGOL SUL
Yn ystod y mis bu'r plant yn brysur yn ymarfer ac yn canu emynau a fyddant yn eu canu yng ngwasanaeth Diolchgwach am y Cynhaeaf.

Yn ogystal buom yn trafod byd anifeiliaid gan gynnwys rhai anwes. Cafwyd croeso gan Eira yn Rhes Gefn wrth i'r plant gael bod yng nghwmni eu merlod Shetland. Daeth Dafydd a'i fochyn cwta a Mali ei chwnngen i'r Ysgol Sul inni gael eu gweld. Roedd y plant wrth eu bodd yn cael eu mwytho a'u bwydo.



Efa yn rhoi moron i Charlie a Boo



Bwydo'r gwningen

sydd wedi derbyn triniaethau mewn gwahanol ysbytai yn ystod yr wythnosau diwethaf, yn eu plith Keith Thomas, Tan y Garth, John Roberts, Ty'n y Ffridd, Gareth a Nansi, Manod, Mrs Jean Northam, Llwyn Bedw, Mrs Augusta Williams, Bron Arfon a Mrs Alice Jones, Tan y Garth.

Pen-blwydd hapus
i Iona Robinson, Maes Bleddyn ar ddathlu pan blwydd arbennig.

Carmel Llanllechid TE BACH

yn Festri Carmel

Pnawn Llun 26 Hydref

2.30 tan 4.00

Croeso cynnes i bawb

Capel Carmel Trefn Gwasanaethau

Hydref
18 Parch. Dafydd Coermor Williams 5.00
25 Gweinidog. 5.00

Tachwedd
01 Gweinidog (Cymun) 5.00
08 Parch. Geraint Roberts. 5.00
15 Mrs Mererid Mair Williams 5.00

Yr Ysgol Sul am 10.30
Clwb Dwylo Prysur – Nos Wener am 6.30

Croeso Cynnes i Bawb

Capel Bethel

Oedfaon y Sul
Hydr. 18Parchg. Dafydd Job.
Hydr. 25Eleri Lloyd Jones
Tach. 01 Parchg. Euros Wyn Jones
Tach. 08 Gweinidog
Tach. 15 Dr. Tudor Ellis
Tach. 22 Parchg. Huw Pritchard
Tach. 29 Dafydd Iwan

Oedfaon am 2.00 o'r gloch
Croeso cynnes i bawb

Diolch
Dymuna Iona Robertson, Maes Bleddyn ddiolch o galon i bawb am yr holl gardiau, anrhegion a dymuniadau gorau ar achlysur ei phen-blwydd arbennig yn 40 yn ddiweddar. Diolch hefyd i'r 30 (o rai gwirion!) a fu gyda hi'n dathlu'r diwrnod mawr yn Blackpool, ac yn arbennig i Siân Ashton, Abercaseg am helpu gyda'r trefniadau. Cafwyd diwrnod i'w gofio!

Carneddi

Derfel Roberts
Llys Arto, Carneddi
☎ 600965
hylaw@btinternet.com

Genedigaeth
Llongyfarchiadau hwyr i Cheryl a Steven Roberts, Carneddi, ar enedigaeth mab bach, Matti Wyn, yn ystod yr haf. Brawd bach i Mili, ŵyr i Janice a Keith Thomas, Maes yr Athro, a gor ŵyr i Eileen Roberts, Ffordd Carneddi.

Diolch
Dymuna Cheryl, Steven a Mili ddiolch i bawb am yr holl anrhegion a chardiau a dderbyniwyd ar enedigaeth Matti Wyn yn ystod yr haf.

Pysgotwr o Fri
Llongyfarchiadau i Stephen Roberts, Ffordd Carneddi, ar gael ei gael ei ddewis yn aelod o dîm pysgota Cymru. Mae'n amlwg ei fod yn bysgotwr llwyddiannus. Wrth ei waith mae Stephen yn Is-reolwr yng Nghanolfan Hamdden Plas Ffrancon. Dymuniadau gorau.



Anrhydedd
Llongyfarchiadau i'r Athro Tom Corns, Cilfodan ar dderbyn yr anrhydedd o gael ei dderbyn yn Gymrawd o'r Academi Frenhinol. Credir mai'r Athro Wyn Thomas, Abertawe yw'r unig un arall o Gymru i dderbyn yr anrhydedd. Anrhydeddwyd Tom am ei waith mawr ar John Milton. Mae wedi teithio llawer yn enwedig yn yr Unol Daleithau yn darlithio ac wedi derbyn anrhydeddau lawer yno hefyd. Un o Crewe yw Tom yn wreiddiol a'i briod Pat o Swydd Lincoln. Erbyn hyn mae'r ddau yn deall ac yn darllen y Gymraeg ond efallai braidd, yn swil o'i siarad. Pat yw trysorydd cangen Bethesda o Ferched y Wawr. Er clod iddynt derbyniodd eu dau fachgen hynod ddisglair eu holl addysg yn yr ysgolion lleol - Abercaseg, Penybryn ac Ysgol Dyffryn Ogwen, ac yn falch o arddel yr iaith. Llongyfarchiadau i Pat hefyd ar gael ei dewis yn gapten y merched yng Nghlwb Golff Biwmares.

Y Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ **601583**

Rhian Mair Roberts, Ffordd Gerlan
Dymuna Gwyndaf, Mared, Tom, Lucy a'r bechgyn ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth drist o golli gwraig, mam a nain amhrisiadwy.

Diolch i bawb a gymerodd ran yn y gwasanaeth yn yr Amlogsgfa, ac am eu geiriau caredig a fu'n gysur mawr iddynt fel teulu.

Diolch hefyd am y gofal a gafodd Rhian yn ystod ei gwaeledd, yn y cartref ac yn yr ysbyty. Hefyd, diolch am y rhoddion hael o £1,600.00 tuag at Hospis yn y Cartref er cof amdani.

Diolch yn arbennig i Mr. Gareth Williams, yr ymgwymerwr, am ei drefniadau trylwyr a theimladwy.

O waelod calon diolch i bawb!

Profedigaeth
Daeth newyddion trist i'r ardal am farwolaeth y ddiweddar Margaret Rose Hughes, Stryd Goronwy. Rydym yn estyn ein cydymdeimlad dwysaf gyda'i phartner, Ken (19) Williams, ei dwy ferch, Elizabeth a Sian, ei hŵyr, Morgan, a'i theulu oll yn eu profedigaeth fawr. Bydd colled fawr ar ei hôl.

Genedigaeth
Llongyfarchiadau mawr i Nici a Gareth, Stryd Goronwy, ar enedigaeth merch, Swyn Arianrhod, chwaer fach i Lloer ac Arawn. Rydym yn dymuno'r gorau ichi fel teulu. Hen daid a hen nain

Llongyfarchiadau i Len a Megan Williams, Ffordd Gerlan, ar ddod yn hen daid a hen nain unwaith eto, pan aned Swyn Arianrhod i'w hwyres, Nici Sion, a'i phartner, Gareth.

Prif eneth
Mae Elin Cain, Ffordd Gerlan, wedi ei dewis yn Brif Eneth Ysgol Dyffryn Ogwen. Rydym i gyd yn ei llongyfarch yn fawr ar yr anrhydedd hwn, ac yn dymuno'n dda iawn iddi yn ei dyletswyddau. Gobeithio y bydd iti fwynhau'r flwyddyn fel un o brif swyddogion yr ysgol, Elin.

Symud cartref
Mae Alun a Ceri a'r genod, Gwen ac Anna, wedi symud o'u cartref yn Rhes Gerlan i gartref newydd yn Nhregarth. Dymunwn y gorau ichi fel teulu yn eich cartref newydd.

Penblwydd arbennig
Mae dau o bobol ifanc yr ardal yn dathlu eu penblwyddi yn ddeunaw oed ym mis Hydref. Rydym yn dymuno penbwydd hapus iawn i Thomas Speddy, Gwernydd, ac Elin Cain, Ffordd Gerlan, gan obeithio y cewch ddathliadau arbennig. Pob dymuniad gorau i'r ddau ohonoch i'r dyfodol gan bawb ohonom yn y Gerlan.

Cofion
Rydym yn gyrru ein cofion at Jane Jones, Gwernydd, sydd heb fod yn dda iawn yn ddiweddar. Rydym yn gobeithio eich bod yn gwella erbyn hyn, ac yn cryfhau, a dymunwn adferiad llwyr a buan i chi.

Y Caban
Cynhelir Cyfarfod Blynyddol y Caban yn y Caban nos Fercher, Tachwedd 11eg, am 7.00 yr hwyr. Croeso cynnes i bawb.

Llan Llanast
Cynhelir Llan Llanast i Deuluoedd yn y Caban Gerlan, ar ddydd Mercher, 21 Hydref o 4.00 o'r gloch tan 5.30. Dewch i wneud crefftau, cael te bach a gwrando ar straeon o'r Beibl.

Am fwy o fanylion cysylltwch â Jennifer Roberts ar 07717754194.

Brownis Nant Ffrancon yn cyrraedd yr uchelfannau!

Mae Brownis Nant Ffrancon, sydd wedi ei lleoli yn Y Caban, Gerlan, wedi profi y medr unrhyw grŵp Browni wneud unrhyw beth pan maent yn rhoi ei meddylfryd arno. Yn ddiweddar, dringodd 18 o Frownis (rhai mor ifanc â 7 oed) Y Wyddfa, mynydd uchaf Cymru, i godi arian tuag at Apêl Daeargryn Nepal Achub y Plant.

Dywedodd eu harweinydd Lucy O'Donnell, “Dyma y tro cyntaf i lawer o'r plant ddringo mynydd, ac roeddynt i gyd yn ymfalchïo pan gyraeddasant y copa. Roedd yn ddiwrnod na wnawn byth anghofio. Gwnaeth y merched i gyd mor dda drwy gefnogi ei gilydd a rhoi help llaw ar ddarnau anodd o'r llwybr.

Roedd y Brownis wedi clywed mor ddifrifol oedd effaith y ddaeargryn yn Nepal, ac roeddynt yn awyddus i wneud rhywbeth i helpu. Roeddynt wedi penderfynu cerdded y Wyddfa amser yn ôl er mwyn codi arian i fynd ar ddiwrnod o hwyl, ond ar ôl clywed am y drychineb yn Nepal, penderfynwyd fod plant Nepal angen yr arian llawer mwy. Roedd hyn mor galonogol , a dyma un o'r rhesymau rwyf yn Arweinydd i'r Brownis”.

Dywedodd Browni, Lauren Watts, 7 oed, “Dwi mor falch i mi gyrraedd y Copa a helpu i godi arian i blant Nepal”.

Dywedodd Mabli Percy, 8 oed, "Roedd yn reit anodd, ond dwi'n hapus i mi godi arian i Nepal"

Credir mai Grŵp Brownis (oedran 7 - 9 oed) yw'r Grŵp cyntaf yng Nghymru i gyrraedd Copa'r Wyddfa - ac nid yn y tywydd gorau chwaith, ond roeddent yn dal i wenu ar ôl cyrraedd y Copa drwy'r gwynt a glaw.

Codwyd y swm anhygoel o £2,061.10 tuag at Apêl Daeargryn Nepal Achub y Plant . Rydym mor falch o bob un ohonynt, ac yn ddiolchgar i'r arweinyddion a wnaeth helpu i wneud hyn yn bosibl.

Nant Ffrancon

Capel Nant y Benglog

Hydref
18: Mr. Arwel Roberts
25: Parchg. John Pritchard (3.00 pm)

Tachwedd
01: Parchg. John Lewis Jones.
08: Parchg. Gerwyn Roberts.
15: Mr. Cledwyn Williams.

Oedfaon am 2.00 o'r gloch oni nodir yn wahanol Croeso cynnes i bawb

Pentir

Anwen Thomas,
Min yr afon, 11 Rhydygroes, Pentir
☎ **01248 355686**

Eglwys St. Cedol, Pentir

Clwb 100 Mis Medi 2015

- 1af Rhif 35 Margaret Williams Rhiwen
- 2ail Rhif 14 Sharon V Williams Pentir
- 3ydd Rhif 45 Myra Jones Waun Pentir

Noson Roegaidd
Nos Sadwrn, 19 Medi yn y Ganolfan cafwyd Noson Roegaidd. Cafwyd gwledd o ddanteithion Groegaidd yn cynnwys mousaka, cig oen lagoto, kotopita, salad Groegaidd, hummus, tzatziki, taramasalata, a bara olewydd.

Wrth fwynhau'r wledd roedd cerddoriaeth traddodiadol Groegaidd yn cael ei chware.

Bendithion Cymysg
Nos Wener 13 o Dachwedd am 6.30yh yn y Ganolfan, Glasinfryn, bydd noson o ddiddanwch a bwffe - cerddi a darlleniadau hwyliog, digrif ag ambell un hiraethus, yng nghwmni'r Gwir Barchedig Alun Hawkins ar Parchedigion Madaline Brady a Liz Williams. Tocynnau ar gael am £5.00 y pen.

Gwasanaethau'r Sul
Bydd y gwasanaethau a ganlyn yn cael ei cynnal am 9.45 y bore. Mae croeso cynnes i chwi ymuno yn y gwasanaethau:

- 18.10.15 Cymun Bendigaidd
- 25.10.15 Boreol Weddi
- 1.11.15 Cymun Bendigaidd
- 8.11.15 Boreol Weddi - Sul y Cofio
- 15.11.15 Cymun Bendigaidd
- 22.11.15 Boreol Weddi
- 30.11.15 Gwasanaeth ar y cyd yn Eglwys Crist Glanogwen

Talybont

Neville Hughes,
14 Pant, Bethesda
☎ 600853

Diolch
Dymuna Llew Jones, 2 Cae Gwigin ddiolch am y cardiau, a’r galwadau yn dilyn ei driniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Mae bellach yn mentro allan ar ei faglau, heb fynd ymhell o’r ty!

Symud
Dymunwn yn dda i deulu 11 Dôl Helyg sydd wedi symud yn ôl i Dregarth.

Teyrnged i Colin



Brawychwyd yr ardal gyfan wrth glywed y newyddion trist am ddamwain angheuol Colin Unsted, 3 Dolhelyg, tra’n teithio ar ei feic modur yn Iwerddon gyda’i ffrindiau.

Tystiai’r lluoedd a ddaeth i’w gynhebrwng yn Eglwys Maes y Groes ar ddydd Iau, Medi’r 17eg, i’w boblogrwydd, ei hynawsedd a’i gymwynasgarwch ymysg pawb a gafodd y fraint o’i adnabod.

Dyn ei deulu, yn anad dim arall oedd Colin. Fel y dywedodd Seren, ei mam, Val, ei brawd, Nicholas a hithau gafodd y lle blaenaf ganddo bob tro. Yr oedd ei ofal drostynt yn ddi-feth, ond gofalai hefyd am weddill y teulu estynedig, a byddai pawb yn troi ato am air o gyngor, neu am gymorth.

Tystiodd ei ffrind pennaf, Brian, i’w ffyddlondeb, ei hiwmor a’i fedrusrwydd fel cyd-weithiwr, a daeth â gwên ar wyneb pawb wrth iddo ddwyn i gof rhai o’r troeon trwstan a ddaeth i’w ran dros y blynyddoedd.

Cafodd Colin ei ddisgrifio, heb orliwio, fel y cymydog gorau a fu erioed. Nid oedd pall ar ei amynedd na’i gymwynasgarwch ac, erbyn hyn, mae Dolhelyg yn dlotach lle o lawer hebbdo.

Rhodddwyd Colin i orffwys yn nhawelwch mynwent eglwys Maes y Groes, ac estynnir cydymdeimlad pob un ohonom i Val, Nicholas a Seren yn eu colled.

Capel Bethlehem

Oedfaon y Sul

Hydref
18 Parchg. Eifion Williams, Llanfairfechan;
25 Oedfa Ddiolchgarwch;

Tachwedd
01 Parchedig John Owen, Rhuthun;
08 Ein Gweinidog (Cymundeb);
15 Parchg. Dafydd Lloyd Hughes Caernarfon;
22: Ein Gweinidog.

Oedfaon am 2.00
oni nodir yn wahanol.
Croeso cynnes i bawb.

Cofion
Dymunwn wellhad buan i Mr. Llew Jones yn dilyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd i gael clun newydd.

Anfonwn ein cofion at Mrs. Dorothy Proudley Williams, sydd yn Ysbyty Eryri yn dilyn codwm. Cofion hefyd at Mrs. Augusta Williams a fu yn Ysbyty Gwynedd ac at Miss Dilys Williams, a fu yn yr ysbyty yn dilyn codwm. Cofiwn hefyd am Mrs. Rhiannon Williams sydd heb fod yn dda yn ddiweddar.

Oedfa Ddiolcharwch i’r Teulu
Mae’r Ysgol Sul yn brysur yn paratoi at yr Oedfa Ddiolchgarwch a gynhelir yn y capel ar brynhawn Sul, 25 Hydref am 2 o’r gloch. Dewch yn llu i’n helpu i ddiolch!

Clwb Plant
Cynhelir “Parti Goleuni” yn festri Bethlehem ar ddydd Mawrth, 27 Hydref o 4.00 – 5.30. Croeso i rieni a phlant. Rhagor o fanylion gan Jennifer Roberts ar 07717754194.

Eglwys Maes y Groes

Cynhaliwyd ein gwasanaeth Diolchgarwch undebol ar fore Sul, 21 Medi, dan arweiniad y Parchedig John Mathews gyda Geraint Gill yn cyfeilio. Wedi’r oedfa aeth rhai o aelodau eglwysi Tregarth, Llandygai a St.Cross i’r Split Willow, Llanfairfechan, i fwynhau cinio blasus. Diolch i Phyllis Davies am drefnu’r achlysur. Diolch hefyd i bawb am addurno’r eglwys ac am y nwyddau a dderbyniwyd gennym a’r anghenus a’r di-gartref.

Ar ran yr eglwys, estynnwn ein cydymdeimlad dwys i Rita Jones, Cae Gwigin, a Val Unstead, Dolhelyg, a’u teuluoedd yn eu colled fawr yn ddiweddar.

Da deall bod Val Withers, Cae Bach, wedi gwella’n ddigon da i ddychwelyd i’w chartref yn dilyn cyfnod yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Eryri.

Penblwydd Arbennig
Fe fydd Llew Jones, yn dathlu ei benblwydd yn 90 oed ar 18ed o Hydref ac mae’r teulu, yn enwedig y gor-wyrion, naw ohonynt, yn dymuno Penblwydd Hapus iawn iddo.

Ysbyty
Mae Mrs. Louie Hughes, Tŷ Cerrig, Cae Gwigin, wedi bod yn yr ysbyty yn Lerpwl yn cael llawdriniaeth, ac mae ei gŵr, Mr. Ifan Hughes, yn disgwyl cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Dymuniadau gorau i’r ddau ohonoch.

Marred Glynn Jones
2 Stryd Fawr, Glasinfryn, Bangor LL57 4UP
☎ 01248 351067
Marred567@btinternet.com

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau mawr i Sara Orwig, Bryn Gwredog Uchaf, Waen Wen, sydd wedi ennill gradd Meistr mewn Athroniaeth, (M Phil). Pob dymuniad da iddi ar gyfer y dyfodol.

Dathlu
Llongyfarchiadau mawr hefyd i Arfon ac Eva Thomas, Sŵn y Coed, Waen Wen a wnaeth ddathlu eu Pen-blwydd Priodas Aur ar 25 Medi, ac i Luned Vaughan Williams, Fferm Tyddyn Heilyn, Caerhun, sydd wedi pasio ei phrawf gyrru yn ddiweddar.

Bingo
Cynhelir Sesiwn Bingo i godi arian at y Ganolfan yn y Ganolfan yng Nglasinfryn nos Wener, 30 Hydref am 7.30yh. Croeso cynnes i bawb.

Newyddion trist
Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs Phoebe Williams, 5 Stryd Fawr, Glasinfryn. Un o Tottenham, Llundain, oedd Phoebe yn wreiddiol a symudodd i fyw i Fangor ar ôl priodi. Bu’n byw gyda’i theulu yn ardal Garth am flynyddoedd lawer, ac roedd ganddi enw da fel gwniadwraig hynod o fedrus. Symudodd i fyw i Lasinfryn yn ddiweddarach er mwyn bod yn agosach at ei merch, Brenda, oedd yn byw yn y pentref. Roedd yn berson hynod o annibynnol a phenderfynol ac fe ddaliodd ati’n ddewr ar ôl wynebu cyfnod anodd yn ei bywyd gan iddi golli ei merch, Brenda; ei ŵyr, Mark; a’i mab yng nghyfraith, Tecwyn, yn agos iawn at ei gilydd, a hynny rhai blynyddoedd yn ôl bellach. Cynhaliwyd ei gwasanaeth angladd yn yr Amlosgfa ym Mangor. Bydd ei chymdogion yng Nglasinfryn yn ei cholli’n fawr.

Sefydliad y Merched
Llywyddwyd ein cyfarfod cyntaf ar ôl toriad yr haf gan Mrs Mair Griffiths. Er mai nifer fach ohonom a ddaeth i’r Ganolfan croesawyd ni yn gynnes iawn a braf oedd cael cyfarfod unwaith eto.

Buom yn cofio yn dawl gyda thristwch am un o’n haelodau annwyl a fu farw yn ystod yr haf sef Mrs Janet Rees. Bu’r angladd yn Eglwys Pentir.

Wedi mwynhau paned a sgwrs a baratowyd gan Kath a Margaret, croesawyd ein gŵr gwadd, Dr Ken Hardy. Ei destun oedd The Role of Women in Society. Da oedd deall fod Dr Hardy yn cydnabod ac edmygu ein cyfraniad, ni ferched, i’r gymdeithas!

Bu’n sgwrsio am ddwy chwaer, y chwiorydd Davies, Margaret a Gwendoline o ganolbarth Cymru a greodd ganolfan celfyddydol yn eu cartref, Neuadd Gregynog. Wrth gwrs, y ferch bwysicaf ym mywyd Dr Ken Hardy oedd ei wraig Bethan. Hi a alluogodd iddo fo ddilyn ei yrfa fel meddyg ym mhle bynnag fynd gan ddewis ei ddilyn i’r Unol Daleithiau i fyw a hynny gyda phedwar o blant.

Diddorol oedd clywed am ei waith fel meddyg a chawsom noson ddifyr yn ei gwmni.

Rhodddwyd y raffl gan Carole a diolchwyd i Dr Hardy gan Mair.

Rhiwlas

Iona Jones
17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎01248 355336

Merched y Wawr
Daeth Medi yn ei dro a dyma ddechrau tymor newydd i’r gangen a chroesawyd ni i’r cyfarfod cyntaf gan Annes. Roedd ymddiheuriadau gan Bet, Einir, Linda, Agnes a Carol. Y wraig wadd oedd Bethan Wyn Jones sydd yn llais cyfarwydd ar Radio Cymru a hefyd yn cyfrannu erthyglau hynod o ddiddorol yn wythnosol i’r Herald Gymraeg. “Glannau Môn” oedd testun ei sgwrs, sef ei hanes yn cerdded Llwybr Arfordir Môn, roedd yn cyfaddef iddi gymeryd sawl blwyddyn i gwblhau’r daith.

Tra’n cerdded bu’n sylwi ar fyd natur, tynnu lluniau ac yn cadw nodiadau a dyna a gawsom yn ei sgwrs. Mae deuddeg rhan i’r llwybr ac fe gawsom flas ar ddau ohonynt, yn sicr mae’n rhaid cael mwy o’r hanes rhywdro eto! Roedd Bethan am ganmol y gwaith a wnaed gan Gyngor Môn ac am y weledigaeth yn y lle cyntaf.

Carys a ddiolchodd iddi ar ein rhan, y mae hi a Cynrig eisoes wedi cerdded y llwybr ar ei hyd ac yn awyddus i’w wneud eto, ond cychwyn o’r pen arall y tro yma. Roedd pawb o’r farn inni gael noson ddiddorol iawn. Nia a Iona oedd yn gyfrifol am y te ac Annes enillodd y raffl. Ym mis Hydref fe fyddwn yn ymweld â’r llyfrgell yng Nghaernarfon i gael sesiwn blasu llyfrau a gwasanaethau digidol newydd sydd ar gael yno.

Estynnir croeso i gyn-aelodau ac aelodau newydd i ymuno â ni ar yr ail nos Fawrth yn y mis. Mae rhaglen ddiddorol wedi ei threfnu.

Ymdeoliad
Ar ddiwedd mis Hydref fe fydd Mr Ken Jones, Hafod Lon yn ymddeol. Bu’n yrrwr bysiau am dros ddeugain mlynedd. Bu’n gweithio i sawl cwmni ac yn ddiweddar gyda chwmni Arvonïa, Llanrug, yn crwydro ar y cyfandir ar un adeg, ac yn gyson o amgylch Prydain. Roedd yn boblogaidd gyda’r teithwyr ac yn gwrtais a hwyliog. Hefyd ym mis Tachwedd fe fydd yn dathlu penblwydd arbennig. Pob dymuniad da i chi Ken, dwi’n siwr y bydd Lorraine hefyd yn falch o’ch cael chi adref.

Clwb Rhiwen
Wedi saib yn ystod yr haf cafwyd y cyfarfod cyntaf ar Fedi’r 16eg a buom yn trafod y rhaglen a gohebiaeth. Ann a Dilys oedd yn gyfrifol am y baned a Gareth, Dilys a Iona enillodd y raffl. Anfonwyd ein cofion at Beryl sydd yn Ysbyty Eryri, ac roedd yn braf gweld Frances wedi gwella ar ôl anhwylder.

Cyfarfod 30 Medi
Braf oedd croesawu Mair yn ôl atom ac roedd ymddiheuriadau gan Frances ac Ann. Cawsom sgwrs am y ffilm “The Sound of Music” a oedd yn dathlu hanner canrif o fodolaeth eleni. Roedd y mwyafrif ohonom yn cofio ble y gwelsom y ffilm gyntaf, a hefyd yn gallu canu nifer o’r caneuon. Myra a Iona oedd yn gyfrifol am y te, roedd canmol mawr i’r danteithion a gawsom gan Myra. Gareth a Dilys a enillodd y raffl, dau sy’n hynod o lwcus!
Dymuno’n dda
Llongyfarchiadau i Reece, 19 Bron y Waun, ar ei ganlyniadau Lefel A, a phob lwc iddo yn ei gwrs Sŵoleg ym Mhrifysgol Bangor.

Y mae Shannon, 25 Bro Rhiwen, wedi cychwyn ar ei chwrs arlwyio yng Ngholeg Menai, yn amlwg yn dilyn ôl troed ei mam. Pob dymuniad da i’r ddau ohonoch.

Cydymdeimlo
Cydymdeimlwn â Mrs Margaret Ilsley, Bron y Waun. Bu farw ei chwaer, Mona Roberts, yng Nghartref Ael y Bryn, Rhydaman. Roedd yn wreiddiol o Gaergybi ac yna ymgartrefu yn Lledrod. Y mae Margaret wedi cael sawl profedigaeth yn ystod y misoedd diwethaf.

Rydym yn meddwl amdanoch ac yn cofio atoch.

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i Dawn a John ar enedigaeth mab, Shane a brawd bach i Shannon, Sam, Sion a Sky. Pob dymuniad da i chi fel teulu.

Rygbi
Mae Cystadleuaeth Rygbi’r Byd wedi dechrau ac fel y mae’n wybyddus inni i gyd fe gafodd Côr Ysgol Dyffryn Ogwen eu dewis i groesawu tîm rygbi Canada yn Abertawe. Roedd pedair merch o Rhiwlas yn aelodau o’r côr sef Megan Williams, Erin George, Ceri Williams a Hannah Cook. Rwy’n siwr iddynt fwynhau’r profiad ac fe fydd ganddynt atgofion i’w trysori.

Noson Wobrwyo Ysgol Dyffryn Ogwen
Llongyfarchiadau i’r disgyblion canlynol o Rhiwlas:
Gwobr Blwyddyn 7 - **Ben Tatum**
Gwobr Ffrangeg a Mabolgampau Blwyddyn 7- **Erin George**
Tîm Rygbi’r Genethod - **Ceri Williams a Hannah Cooke**
Presenoldeb llawn drwy’r flwyddyn - **Megan Williams a Nia George**
Gwobr ymdrech Blwyddyn 10 - **Manon Jones**

Llongyfarchiadau i chi i gyd ac yn ddiddorol iawn, Manon Steffan, un o’r pentref ,oedd y Wraig Wadd yn y noson wobrwyo.

Diolchiadau
Y mae Ilaria Zanier a fu’n gadeirydd Cyfeillion Ysgol Rhiwlas am ddiolch i’r gymuned am gefnogi’r digwyddiadau i godi arian yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cyrrhaeddwyd y nod o £2000, ac mae hyn wedi galluogi’r Cyfeillion i brynu wal ddringo ac offeryn allweddell newydd. Hefyd y maent wedi cyfrannu at amrywiol deithiau, ymweliadau addysgol ac arian hefyd i ddatblygu gwefan yr ysgol. Bu’n flwyddyn brysur ac y mae Ilaria am ddiolch i fusnesau lleol a gyfranodd at eu gweithgareddau i godi arian. Cafwyd coeden afalau gan gwmni Silcocks ac fe’i planwyd yn ystod y ffair wanwyn. Y mae am ddiolch i’r busnesau canlynol: Tesco, Morrisons, New Image, Canolfan Ddringo Beacon, Gelli Gyffwrdd, Eisobics, DWFitness, Boots a Moduron Pandy. Bydd digwyddiadau pellach i’w gweld ar wefan yr ysgol.

Calendr Llais Ogwan
Mae’r calendrau 2016 wedi cyrraedd, siom eto nad oedd llun o’n hardal ni wedi ei anfon eleni eto. Os am brynu un, cysylltu â’r dosbarthwr neu â mi yn bersonol, y pris yw £4 fel y llynedd.

Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen),
44 Bro Syr Ifor,
Tregarth
☎ **600192**

Angharad Williams,
23 Ffordd Tanrhiw,
Tregarth
☎ **601544**

Genedigaethau
Ar ddydd Iau, 6 Awst, ganwyd merch fach, Seirian Rhodd, i Alan a Mared Jones, Stryd Glanrafon, Bethesda. Llongyfarchiadau i nain a taid Tregarth, sef Euronwy a Gareth Jones, Waen Pandy.

Ganwyd merch fach i Llinos ac Owen Bracegirdle ar 17 Awst, sef Elenid Glyn. Mae Llinos yn ferch i Arwel a Meinir Edwards, Tir Tegla, Tregarth (Arwel Garej Pandy).

Cofion
Anfonwn ein cofion at Mrs. Lilly Richardson, 24 Ffordd Tanrhiw, sydd ar hyn o bryd mewn cartref yn Llanberis, ond yn dal i dderbyn Llais Ogwan.

Merched y Wawr Cangen Tregarth

Nos Lun, Medi 7 , cafwyd cyfarfod cyntaf y tymor dan lywyddiaeth Margaret Jones, Cae Drain, a hyfryd oedd croesawu pawb ynghyd yn Festri Capel Shiloh am 7.30. Roedd yn ardderchog cael dwy aelod newydd sbon i’r gangen sef Sioned Roberts, Fferm Dob a Catrin Doyle, Pant Teg. Cafwyd noson o Frethyn Cartref a Bwffe wedi’i drefnu gan bwyllgor y gangen.

Roedd Margaret wedi trefnu fod cwis lleol wedi’i baratoi ar gyfer y noson gyda chymorth cyfaill ffyddlon o’r pentre ac roedd yn sesiwn hwyliog gyda dipyn o grafu pen ar adegau . Diolch o galon i’r un fu wrthi yn trefnu’r cwis. Yna’n dilyn roedd gwledd o fwffe gwerth chweil a phawb yn canmol ac yn mynd adre wedi mwynhau’n arw. Diolchwyd am noson gychwynol dda iawn gan Eirwen Williams, Tyddyn Dicwm. Mae’n argoeli’n dda am wedill y tymor !

Bydd y gangen yn cyfarfod nesa Nos Lun, Hydref 5, am 7.30 pan ddaw Ceri Owain o Fethesda i roi noson o Gymorth Cyntaf.

Ar Dachwedd 2 byddwn yn croesawu Delyth Jeffries o Fethesda i’r gangen. Mae Delyth gyda stondin gacennau ym Marchnad Ogwen ac fe gawn gyfle i flasau a phrynu gobeithio !! Dewch yn lluoedd.

Croeso mawr i bawb i ymuno â’r gangen. Am fwy o fanylion gellir cysylltu gyda Margaret (600477) neu’r ysgrifennydd Angharad (601544).

Capel Shiloh

Dyma oedfaon Shiloh am yr wythnosau nesa.

Hydref 18 Oedfa Deulu’r Diolchgarwch(10.30) yng nghwmni Buddug Medi, Y Bala

Hydref 19 (Nos Lun) Oedfa Ddiolchgarwch am 6.00 dan ofal y Parchedig Philip Barnett

Hydref 25 Parchedig Gerallt Lloyd Evans, Llangristiolus

Tachwedd 1
Parchedig Philip Barnett

Tachwedd 8 Parchedig Dafydd Hughes, Caernarfon

Tachwedd 15 Parchedig Gwyndaf Jones, Bangor

Oedfa’r hwyr am 5.00
Oedfa Deulu am 10.30

Eglwys y Santes Fair Gwasanaethau

Hydref
18: Boreol Weddi
25: Cymun Bendigaidd

Tachwedd
01: Boreol Weddi
08: Sul y Cofio
15: Boreol Weddi

Pob gwasanaeth am 9.30yb heblaw am Sul y Cofio am 10.00yb.

Mae’r Te Bach yn dal i gael ei gynnal yn rheolaidd. Cynhelir y nesaf ar ddydd Iau, 5 Tachwedd am 2.00yp. Byddwn yn cynnal Cwis nos Fawrth, 27 Hydref, am 7.00yh. Dewch draw am noson hwyliog.

Dydd Sul, 13 Medi, bedyddiwyd Seren Wyn, merch Haf a Jonathan, Maes Ogwen, chwaer fach i Osian ac ŵyres i Rhian a Tegryd Hughes, Godre’r Parc.

Clwb 100 Canolfan Tregarth

Mis Gorffennaf	
40 Sulwen Roberts	£15
41 Goronwy Roberts	£10
43 Peter Jones	£5
Mis Awst	
8 Margaret Jones	£15
27 Janice Doyle	£10
27 Sulwen Jones	£5
Mis Medi	
56 Peter Roberts	£15
48 Mari Gruffydd	£10
35 Tudor Jones	£5

YN EISIAU! GWIRFODDOLWYR!

Mae Neuadd Ogwen angen mwy o wirfoddolwyr i helpu yn ystod ein digwyddiadau.
Eich neuadd chi yw hon!

Am ragor o wybodaeth: Cysylltwch ag Owain ar 01248 208 485 neu 07442 532 746
owain@neuaddogwen.com
neu gyrrwch neges drwy dudalen Facebook y Neuadd

Mynydd Llandygái

Theta Owen, Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygái.
☎ 600744

Eglwys y Santes Ann a'r Santes Fair

Gwasanaethau

Hyd.18: Boreol Weddi
Hyd. 25: Cymun Bendigaid
Tach. 1: Gwasanaeth Teuluol
Tach. 8: Sul y Cofio - Cymun Bendigaid
Tach. 15: Boreol Weddi

Dechreuir am 9.45 y.b. Croeso cynnes i bawb.

Diolch i bawb a gefnogodd y "Bore Coffi" yng Nghanolfan Cefnfaes - rydym yn ddiolchgar iawn i chwi oll.

Cynhelir y "Ffair Nadolig" y flwyddyn hon ddydd Sadwrn, 28 Tachwedd. Unwaith eto bydd amrywiaeth o stondinau, paned a chroeso cynnes i bawb. Am fwy o wybodaeth gweler yr hysbys-fwrdd neu'r posterï canol mis Tachwedd.

Cofíwn am bawb sy'n sâl ar hyn o bryd, yn enwedig Mrs. Margaret Stewart, St. Ann's, ac anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd.

Os oes unrhyw un yn dymuno derbyn Cymun gartref neu am sgwrs, mae'r Ficer, Y Parchedig Christina McCrea yn barod bob amser i siarad ag unrhyw un o'r plwyfolion ar Bangor 372249.

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Mrs. Margaret Stewart yn dilyn llaw-driniaeth yn yr ysbyty. Da clywed ei bod gartref erbyn hyn.

Cofion hefyd at bawb sydd yn cwyno yn yr ardal.

Penblwydd Arbennig Iawn

Llongyfarchiadau a chyfarchion arbennig i Mrs. Mary Gweneth Griffith, a fu'n dathlu ei phenblwydd yn 102 oed ar 5 Hydref. Gobeithiwn eich bod wedi mwynhau'r dathlu yng nghwmni teulu a ffrindiau yn eich cartref yng Nghors yr Eira.

Arthur Jones, Hirdir (1938 - 2015)

Teyrnged gan ei gyfaill Y Canon Tegid Roberts, Llanrug

Ar brynhawn dydd Iau'r 6ed o Awst, gadawodd ffrind i mi neges ar fy ffôn symudol yn fy hysbysu am farwolaeth Arthur y bore hwnnw, yn dilyn cystudd blin a oedd wedi dod arno bron yn ddirybudd yn gynnar ym mis Ionawr eleni. Bu'r gwasanaeth angladd wythnos yn ddiweddarach, yn gyntaf yn Eglwys St. Ann a St. Mair, ym Mynydd Llandegai, eglwys fach hardd, yr oedd Arthur wedi rhoi oriau o lafur cariad i'w hatgyweirio, ac yna yn Amlosgfa Bangor, gyda'r Barchedig Christina McCrea yng ngofal y gwasanaeth.

Ffrind gwael fyddwn i pe na fanteisiwn ar y cyfle hwn i ysgrifennu pwt o deyrnged i Arthur, gŵr arbennig iawn, y cefais y fraint o'i adnabod a threulio llawer o achlysuron cofiadwy yn ei gwmni. Dyma, felly, sut yr oeddwn i yn gweld fy ffrind Arthur, ac i geisio gwneud hynny, rwyf am ddefnyddio'r llythren 'C'.

'C' am Cristion

Roedd Arthur yn Gristion didwyll ac yn arddel y Ffydd yn ffyddlon. Yn wir, trwy gysylltiadau eglwysig yn Newcastle, lle'r oedd yn gweithio dros hanner canrif yn ôl, y cyfarfu ag Alison, a ddaeth yn wraig a chymar oes iddo. Roedd yn meddwl y byd o'i Eglwys yn Mynydd Llandegai, ac yn addoli'n gyson yn yr adeilad y bu'n rhan anhepgorol o'r gwaith atgyweirio a ddigwyddodd ynddo ryw bymtheg mlynedd yn ôl. Daw hynny â mi yn naturiol ddigon at yr ail lythren 'C'.

'C' am Crefftwr

Barn pawb oedd wedi cael unrhyw gyswllt ag Arthur oedd ei fod yn Grefftwr Coed rhagorol ac yn saer coed medrus. O edrych o gwmpas fy nghartref, rwy'n gallu sylu'n ddyddiol ar nifer o wahanol gelfi sy'n dangos ôl ei grefft neilltuol o gelfydd, fel y bowlen hardd yn enghraifft o'i grefft o durnio mor gain, darllenfa dderw odidog a chadair Eisteddfod Trevelin 2010, a enillodd fy ngwraig, Nant, tra roeddem yn treulio blwyddyn ym Mhatagonia, y llwyddodd Arthur i'w hail-osod at ei gilydd ar ôl iddi deithio'r holl ffordd i Gymru, yn ddarnau mewn bocs o'r Wladfa. Ac ef hefyd adeiladodd y giât gadarn, bren, sy'n ddrws allanol rhwng y ffordd a'r llwybr at ddrws cefn y tŷ. A chredaf nad fi yn unig sy'n gallu tystio i'w grefftwiaith rhyfeddol o gain. Gellir yn naturiol glymu C y Crefftwr gydag 'C' Cyfeillgarwch, oherwydd ei gyfeillgarwch hael oedd yn gyfrifol am yr holl gymwynasau yr oedd Arthur yn eu gwneud.

'C' am Cerddwr

Trwy weithgareddau Clwb Cerdded yr Esgobaeth y deuthum i adnabod Arthur yn dda. Dros y deng mlynedd diwethaf, cefais gyd-gerdded yn ei gwmni ar lu o deithiau cerdded yn lleol yn Eryri ac mewn sawl lle arall yng Nghymru a Lloegr. Roedd yn gerddwr brwd a'i sgysiau bob amser yn ddifyr dros ben. Byddwn, fel aelodau o'r Clwb yn colli ei gwmni a'i gyfeillgarwch.

Cydymdeimlad dwys ag Alison a'r teulu yn eich profedigaeth.
'Huned ei hoffus enaid mewn hedd.'

Canon Tegid Roberts, Llanrug.

Llandygái

Iona Wyn Jones,
Dyma Fo,
16 Pentref Llandygái, Bangor,
LL57 4HU
☎ 01248 354280

Eirlys Edwards,
Sŵn y Coed, 23 Pentref
Llandygái, Bangor,
LL57 4HU
☎ 01248 351633

Bingo
Cafwyd noson lwyddiannus arall yn Neuadd Talgai. Gwnaed elw o £99.50. Diolch i bawb am gefnogi.

Damwain
Dyna oedd hanes Mrs. Dorothy Proudley Williams, pan syrthiodd a niwedio ei braich. Mae, erbyn hyn, yn Ysbyty Eryri, Caernarfon. Mae pawb yn y pentre yn meddwl amdani.

Croeso
Mae Aled a Ceri Hughes, wedi symud o Abergele i fyw yma yn Cilmarian, Y Bryn. Roeddynt wedi dotio ar yr olygfa o'r Bryn ers amser maith! Dymunwn bob hapusrwydd iddynt yn eu cartref newydd.

Braichmelyn

Rhiannon Efans,
Glanaber, Pant, Bethesda
☎ 600689

Doethuriaeth
Llongyfarchiadau i Dr. Nia Williams, Glan Caseg, Braichmelyn, ar ennill ei doethuriaeth o Brifysgol Bangor. Cariad mawr oddi wrth mam, dad, Nic, Gareth, Lloer, Arawn, Bedwyr, nain a taid Gerlan a nain Edna.

Brysiwch Wella
Anfonwn ein cofion at Mrs. Norma Jones, 2 Pen y Graig, sydd wedi torri ei chlun yn ddiweddar. Brysiwch wella Norma!

Taid a Nain
Llongyfarchiadau i Dylan a Helen Williams, Glan Caseg, ar ddod yn daid a naini wŷres fach newydd. Ganwyd Swyn Arianrhod i Nici Siôn a Gareth yn y Gerlan. Mae'n siŵr fod pawb wrth eu bodd efo'r fechan. Llongyfarchiadau i'w rhieni, Nici a Gareth, hefyd ei chwaer a'i brawd mawr.

Ymgymmerwr adeiladu a
gwaith saer

Ronald Jones

Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda
☎ 01248 601052

SAMARIAID

Mac
Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Blodau Hyfryd

7 Rhes Buddug, Bethesda
☎ 602112 (gyda'r nos 602767)
Blodau ar gyfer pob achlysur

Priodasau, Angladdau ayyb
Ffres a Sidan

Gwasanaeth 'Archebu a Danfon'

Arbenigwr mewn lloriau coed caled



Arbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

WU SHU KWAN

Bocsio Cic Tsieineaidd (Kung Fu)

Dosbarthiadau
yng Nghanolfan
Gymdeithasol
Tregarth bob
nos Fercher
6.30 tan 8.30

Un sesiwn am ddim os dewch
â'r hysbyseb hwn hefo chi

♦ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ♦
Manylion gan Jake neu Elena
Fitzpatrick - 01248 602416
neu galwch heibio'r dosbarth

TEMPLE MORRIS A'I FAB

Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.

07770 900531
01248 600282


jtemplemorris@btinternet.com



01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATÍ.



GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

Modurdy Central

Ceir ail-law ar werth
M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎ 601031

Sefydlwyd 1969

m.hughes
a'i fab

CONTRACTWYR TOI
2 Hen Aelwyd, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.*

Cerbydau Penrhyn

CABIAU A BYSIAU MINI
Ffôn: (01248) 600072

Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau

Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwylans Gogledd Cymru

CHRIS GRIFFITHS

Trwsio ffenestri upvc, drysau,
cloeau, bachau, twll llythyrau ac
unedau gwydr wedi chwythu



☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

18 Mill Lodge
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

Swyddfeydd eraill:

Llangefni Amlwch Benllech
(01248) 723106 (01407) 831777 (01248) 852782

Caernarfon Pwllheli
(01248) 673616 (01758) 703000



Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

MODURDY
FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. LI. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦ TEIARS A BATRIS ♦
GWASANAETH TORRI I LAWYR
NEU DDAMWAIN

☎ 600723
Ffacs: 605068

Plaid Lafur
Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen ym Methesda ar ddechrau mis Medi a chafwyd adroddiadau am waith Llywodraeth Cymru (e.e. y cynllun i roi diwgownt o un rhan o dair ar docynnau bws i bobl ifanc rhwng 16 ac 18 oed), Cyngor Gwynedd (e.e. yr ymgynghoriad ar y toriadau), Cyngor Bethesda (e.e. y parodrwydd i fenthg arian i Bartneriaeth Ogwen) a Llywodraeth Ewrop (e.e. safbwynt yr aelodau Llafur ar y cytundeb masnach arfaethedig rhwng Ewrop a'r Unol Daleithiau). Hefyd, penderfynwyd cynnal bore coffi yng Nghanolfan Cefnfaes ar Ebrill y 9fed.

Yna, ar ddiwedd mis Medi, aeth nifer i gyfarfod o Blaid Lafur Gogledd Cymru i wrando ar sylwadau Sandy Mewies (aelod Cynulliad Cymru dros Delyn) a Donna Hutton (aelod o Bwyllgor Gwaith Plaid Lafur Cymru) gan holi'r ddwy a mynegi barn. Trwy gydol mis Awst a mis Medi bu aelodau'r gangen um dosrannu taflen gychwynnol Siôn Jones, ymgeisydd Plaid Lafur Arfon yn etholiadau Cynulliad Cymru y flwyddyn nesaf.

Cynhelir cyfarfod nesaf y gangen am 7.30p.m. yng Nghanolfan Cefnfawes, y 12 fed o Dachwedd yn lle'r Sedd (pan fydd y gangen yn trafod y polisi ynni) am bod cyfarfod is-ranbarthol ar y Sedd.

Plaid Cymru
Cangen Dyffryn Ogwen

Ar fore Sadwrn, 26 Medi, cynhaliwyd bore coffi y gangen yn Neuadd Ogwen. Daeth nifer teilwng iawn yno ar fore hyfryd. Yn bresenol hefyd roedd Alun Ffred Jones A.C. Ni fydd yn sefyll yn etholiad y Cynulliad fis Mai nesaf, felly diolchodd i bawb am eu cefnogaeth iddo tra yn A.C., a hefyd am y fraint o ddod i adnabod cymaint o drigolion yr ardal.

Siân Gwenllïan fydd yr ymgeisydd newydd, merch sy'n enedigol o'r Felinheli, ac yn dal i fyw yno, felly mae ganddi adnabyddiaeth dda iawn o'r etholaeth. Yn y misoedd nesaf felly, byddwn yn ymgyrchu ar ei rhan gan helpu'r etholwyr i ddod i'w hadnabod.

Yng nghyfarfod mis Medi o'r Gangen daeth Siân i'n hannerch gan rannu ei gweledigaeth efo ni. Yn y cyfarfod hefyd llongyfarchwyd Paul Rowlinson am ei godi yn gadeirydd Pwyllgor Gwynedd o'r Blaid ac i Neville Hughes ar ddod yn is-gadeirydd Cyngor Cymuned Bethesda.

Braf oedd clywed fod ein haelodaeth wedi cynyddu yn lleol.

Cynhelir ein cyfarfod nesaf yng Nghefnfaes nos Fawrth, 27 Hydref.

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes

Dyddiadur Digwyddiadau 1928-1935

1928

- 04/08/1928: Marw Lewis Davies Jones (Llew Tegid), prifathro cyntaf Ysgol y Cefnfaes, ym Mangor, a chladdwyd ef ym Mynwent Glanadda.
- Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Treorci: Caradog Prichard yn ennill y Goron (am yr eildro) am ei bryddest 'Penyd'.

1929

- Cwmni Grey Motors yn dechrau rhedeg gwasanaeth o Fynydd Llandegai i Fangor.
- Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Lerpwl: Caradog Prichard yn ennill y Goron (am y trydydd tro'n olynol) am ei bryddest 'Y Gân Ni Chanwyd'.

1929-30

- Tîm pêl-droed y Bethesda Vics yn bencampwyr y Gynghrair ac enillwyr y Gwpan.

1930

- Sefydlu Clwb Golff Nant Ffrancon gan John Wheldon Jones, Coed-y-Parc (a gadwai siop dros y ffordd i'r hen lythyrdy ym Methesda). Yr oedd 9 twll yn y cwrw ac ymestynnai o'r ffridd a berthynai i Ffarm Dolawen, wedi mynd dros Bont Ceunant yn Nhy'n-y-Maes, at y lliidiart cyn cyrraedd Tai Newyddion. Ni fu fawr o lewyrch ar y Clwb ac ychydig o ddiddordeb a ddangoswyd ynddo.

1931

- 08/05/1931: Gosod carreg sylfaen Neuadd Goffa Mynydd Llandegai gan yr Arglwyddes Penrhyn.
- Cyhoeddi Llyfr Mawr y Plant [1], Jennie

Thomas a J. O. Williams.

- Cyhoeddi Cerddi Huw Puw, J. Glyn Davies, yn cynnwys caneuon a luniwyd ar gyfer Côr Plant Ysgol y Cefnfaes.

1932

- Holl fsysys Grey Motors yn cael eu gwerthu i Crosville. Cadwyd y busnes lorïau'n unig.
- Cyngor Dinesig Bethesda yn codi tai yn Adwy'r Nant (Rhifau 1-16).

1933

- 02-03/03/1933 (Iau-Gwener): Coetmor Hall, cartref y diweddar W. J. Parry, yn llosgi'n ulw, a hithau'n eira mawr ar y pryd.
- 07/04/1933 (Gwener): Cyfarfod er mwyn cael esgidiau i blant tlodion yr ardal.
- Sidney Orme, 19 Rhes Ogwen, yn darparu bowling green a 2 gwr't tennis ar ddarn o dir ym Mharc Bryn Meurig, a'i alw'n Orme Park.

1934 (tua)

- Cyhoeddi The Switzerland of North Wales: Bethesda: Local Guide Book (Issued under the auspices of the Bethesda and District Traders Association).
- Tafarnau'r ardal yn agored o 11.00 tan 4.00 ac yna o 6.00 tan 9.00.

1934

- 03/03/1934: Agor Neuadd Goffa Mynydd Llandegai gan yr Arglwyddes Penrhyn a Syr Percy Watkin.
- 17/05/1934 (Iau): Tywysog Cymru (Edward VIII yn ddiweddarach) yn ymweld â Neuadd Goffa Mynydd Llandegai.
- Cyngor Dinesig Bethesda yn codi rhagor o dai yn Adwy'r Nant (Rhifau 17-46).

1935

- 06/02/1935 (Mercher): Cyngerdd er budd y di-waith yn y Neuadd.

I'w barhau

Marchnad Ogwen

Dwy Farchnad mis nesaf!

Bydd ein Marchnad ar yr ail Sadwrn fel arfer - sef 10fed o Dachwedd yn Neuadd Ogwen o 9.30 - 1.30. Bydd Haf Thomas yn ôl gyda'i chardiau ar y Stondin Elusen a Susan Jones (gynt o Fethesda) gyda gemwaith ar y Stondin 'Un tro'

Am y tro cyntaf, mae Marchnad Ogwen yn torri tir newydd trwy gynnal Marchnad Nadolig gyda'r nos. Bydd y Farchnad yn Neuadd Ogwen o 6 - 9 ar nos Fercher, Tachwedd 25ain. Mae'r Boncathod yn dod i ganu carolau a bydd naws Nadoligaidd hyfryd yn y Neuadd. Mae'r NSPCC a Neville Hughes gyda'i Jam Cartref yn cynnal y Stondinau Elusen, ac Elen gyda 'Scrabbles' ac Emily Roberts gyda gemwaith ar y Stondinau 'Un tro'. Mae cryn edrych ymlaen am y noson! Siopa Nadolig cynnar, lleol ac o safon uchel - beth sydd well!

Cofiwch ddod a'ch Cerdyn Glas gyda chi er mwyn cael cyfle i ennill y raffl fawr ym Marchnad Rhagfyr. (Cofiwch roi eich enw ar y cerdyn - mae un wedi dod i law i fynd i'r het am y wobr yn ddiennw)

Y misoedd nesaf sy'n rhydd i'r Stondin Elusen yw Ionawr a Gorffennaf, a mis Ionawr i'r Stondin 'Un tro' Mae'r holl wybodaeth gyfredol am y Farchnad ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk ar Facebook a Twitter @MarchnadOgwen ac ar y Bwrdd Gwybodaeth sydd ymhob Marchnad.

Llwyddiant Hogyn
o Pesda



Mae Jason Lewis, 37 oed, bellach yn Brifathro ar Ysgol Uwchradd "Rainbow International School" yn Uganda, yr Affrig. Hyd at 2 flynedd yn ôl roedd Jason yn Brifathro mewn ysgol yn Tansania hyd nes iddo gael ei benodi yn bennaeth ei ysgol bresennol sydd yn llawer iawn mwy.

Mae teulu Jason yn dal i fyw yn yr ardal hon, ac mae llawer o'r trigolion sydd yn ei gofio yn hogyn yn ysgolion Abergaseg, Pen y Bryn a Dyffryn Ogwen, yn ymfalchio yn ei llwyddiant ar gyfandir yr Affrig. Dymuniadau gorai iddo i'r dyfodol.

Yn y llun gwelir Jason yn llongyfarch rhai aelodau o'i staff sydd wedi rhagori ym myd athletau ac wedi ennill yr hawl i gynrychioli Uganda yn y Gemau Affricanaidd.


Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



YR IARD, Ffordd Stesion, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)



Clwb Criced a Bowlio Bethesda

Lon Newydd, Bethesda, Gwynedd, LL57 3DT

Lleoliad Gwych ar Gyfer Pob Achlysur

Cyfleusterau Gwych ar gael i Fudiadau,
Cymdeithasau a Thriolion
Parlion, Bedydd, Cyfarfodydd, Gigs,
Digwyddiadau, Cynhadleddau, Priodasau a llawer
mwy...

Dyddiau ac amseroedd hyblyg ar gael ar gyfer
llogi'r Clwb a Prisiau rhesymol

Oriau Agor:

Sul: **Ar Gais**
Llun: **Ar Gais**
Mawrth: **Ar Gais**
Mercher: **Ar Gais**
Iau: **8-12**
Gwener: **7-12**
Sadwrn: **7-12**

Cyfleusterau: 3 ystafell fawr / 2 bar / 11 ystafell / Cegin, gyda chylfaer / Digin o le parcio / Snoccer a Pêl

Manylion Cyswilt: Ffôn: (01248) 600833, E-bost:
cricedbethesda@outlook.com,

OWEN'S TREGARTH

Cludiant Preifat a Bws Mini



Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
Arbenigo mewn meysydd awyr

01248 602260
07761619475



www.owenswales.co.uk

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym
Marchnad Ogwen

11.00 -12.00 , 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi
Fitzpatrick's

Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau
siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwysu Teiars
Batris
Tracio

01248 600619



moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY



Proffesiynol, diogel a chyfrinachol
LLEDDFU POEN Cefn, cyhyrau, esgyrn,
cymalau, a thensiwn cur pen

Eli Lichtenstein
07743373895 Ogwen.Physical.Rehab@gmail

Chwilio am ofod swyddfa/siop ar
Stryd Fawr Bethesda?
Gofod Siop, Swyddfa neu Weithdy
yn awr ar gael.

Ystafell gyfarfod Swyddfa Ogwen
Ar gael i'w llogi yn awr
telerau cymunedol ffafriol.

Ymholiadau - 01248 602131
partneriaeth@ogwen.org

I hysbysebu yn y Llais neu i dynnu
sylw at eich gweithgareddau yn yr
ardal, gan gynnwys
Dyddiadur y Dyffryn,
cysylltwch â'r
Trefnydd Hysbysebion:

Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA
☎ 600853



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei
drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa,
yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa
ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei
drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa,
yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa ym
Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

alunffred.jones@cymru.gov.uk

Côr y Penrhyn yn concro America

(Derfel Roberts, aelod o'r côr, yn rhoi hanes cyfres o gyngherddau nodedig dros Fôr yr Iwerydd)

Yn niwedd Mis Awst a dechrau Mis Medi aeth aelodau'r côr ynghyd â nifer o wragedd i'r Unol Daleithiau i gymryd rhan mewn cyfres o gyngherddau a synnodd bobl o bob rhan o'r wlad ac a daniodd ymateb nid annhebyg i'r hyn a brofir gan sêr pop mawr y byd.

Washington DC, prifddinas y wlad enfawr honno oedd y lle cyntaf i ni ymweld â hi. Wedi dau ddiwrnod o brofi atyniadau diwylliannol ac addysgiadol y ddinas dra ddiddorol honno aeth yr aelodau ati i baratoi am noson fwyaf eu bywydau o bosibl. Tra bo rhai corau yn cael trafferthion mawr wrth geisio trefnu cyngerdd o gwbl yn y ddinas brysur ac eraill ond yn cael canu mewn mân neuaddau ysgolion a cholegau, cafodd Côr y Penrhyn y ffrind o ganu ym mhrif addoldy'r genedl, sef Cadeirlan Genedlaethol Washington. Dyma adeilad gorwych sy'n dwyn cymhariaeth ffafriol ag eglwysi mawr Ewrop, megis Caer Efrog, Canterbury, Notre Dame a Chartres. Mae'n adeilad Neo-gothig enfawr ac fel y gellid dychmygu mae'r effeithiau acwstig yn wefreiddiol.

Wrth i'r côr fynd drwy'r raglen teimlai pob aelod fod y gynulleidfa'n cynhesu tuag atom ac erbyn inni ganu rhyw dair cân roedd y gymeradwyaeth ar ddiwedd pob cyflwyniad yn fyddarol. Cymorth mawr i gyflwyniadau'r côr oedd bod ein perfformiwr gwadd, Glain Dafydd, yn swyno pawb gyda'i dawn ar y delyn gan gyflwyno darnau traddodiadol Gymreig ynghyd â darnau mwy clasurol. Mae Glain, sydd newydd orffen cwrs telyn ym Mharis ac ar fin cychwyn un arall yn Llundain, yn sicr o fod yn un o'r talentau disgleiriaf a ddeilliodd o'r ardal hon erioed.

"Nid cyngerdd ond perfformiad"

Ffactor wahanol a wnaeth gyfraniad sylweddol i'r cyflwyniadau oedd honno o eiddo John Ogwen, un arall o fawrion ein cenedl, a'i ddarlenniadau o weithiau gan rai o feirdd a llenorion enwocaf Cymru, yn amrywio o Saunders Lewis a Dylan Thomas hyd at Gerallt Lloyd Owen, a'r cyfan yn cael ei wneud i gyfeiliant telyn Glain a hymian tawel y côr yn y cefndir.

Ar yr un pryd â chyflwyniadau'r côr a'u gwesteion roedd ffilm a gynhyrchwyd gan Dyfrig Jones gyda rhan fechan gan gwmni teledu Tinopolis yn dangos rhai o brif olygfeydd Cymru a montage o hen luniau o'r chwarel a Chôr y



Rhai o aelodau ifanc y côr gyda Glain Dafydd, y delynores wadd, yn mwynhau rhai o atyniadau Efrog Newydd. Thomas Williams, (Twm Bach, yn y canol) sy'n gofalu amdany'n nhw.

Penrhyn y gorffennol yn cael eu dangos ar sgriniau i'r gynulleidfa.

Meddai James Evans o Alberta, Canada, oedd yn bresennol ar y noson, "Nid cyngerdd yn unig gawson ni gynnoch chi heno, ond perfformiad," ac mae hynny'n ganmoliaeth uchel gan un a fu'n gwrando ar Only Men Aloud yn canu yn America llynedd. Ychwanegodd Mr Evans, "Dyna un o'r cyflwyniadau mwyaf gorchestol a phleserus y cefais i'r ffrind o wrando arnynt erioed," meddai. "ac mi fyddwn i a phawb arall rydw i wedi siarad â nhw yn fodlon teithio ymhell i wrando ar gyflwyniad tebyg gynnoch chi eto."

Efrog Newydd, Vermont a Glens Falls

Ar ail ran y daith, teithiodd pawb i fyny i Efrog Newydd lle cafwyd cyfle i brofi rhai o atyniadau byd-enwog y ddinas anferth honno. Wedyn aethom ymlaen i gwrdd â hen gyfeillion o Poultney, Vermont a Granville, Efrog Newydd lle bu'r côr yn cynnal cyngherddau yn ôl yn y nawdegau. Yma cawsom groeso penderfogaidd gyda gwledd a ffair stryd i'n cyfarch.

Cawsom allwedd i'r dyffryn fel anrheg gan Gymdeithas Dewi Sant, Poultney ac fe gafodd Guto, un o'n haelodau ieuengaf, y ffrind o godi'r Ddraig Goch mewn seremoni i'n croesawu yn ôl i Poultney. Janice B. Edwards, gwraig sy'n ymhyfrydu yn ei threfnadaeth Gymreig, a drefnodd bopeth yn yr ardal honno sy'n llawn o fân chwareli llechi.

Yna, cafwyd ail gyngerdd y daith yn Ysgol Uwchradd Queensbury, Glens Falls, Efrog Newydd. Fel y gellid disgwyl roedd y neuadd, a ddaliai dros fil o bobl, yn orlawn ac roedd ymateb y dorf i

gyflwyniadau'r côr yn danbaid. Wedi'r cyngerdd, dywedodd Gary Roberts a'i wraig, Debbie, o Granville, "Mi wnaethon ni fwynhau eich cyngherddau yn 1993 ac yn 1999 ond roedd y perfformiad heno yn eich codi i dir llawer uwch o ran amrywiaeth y caneuon, bywiogrwydd y cyflwyniadau ac o ran cadw diddordeb y gynulleidfa."

Meddai Mrs. Chris Partch o dalaith Efrog Newydd, "Roedd fy nhaid a fy nain yn huanu o Gymru ac roedden nhw'n sôn o hyd am ganu mewn harmoni a phedwar llais yn cyd-asio. Yma heno mi glywais pa mor felodaidd a swynol yw canu felly ac mae deigr yn y dod i'm llygaid wrth feddwl am fy nghyndadau yn canu'r hen ganiadau Cymreig."

Cafwyd ymateb arbennig o deimladwy gan Ryan Jones bachgen bach deuddeg mlwydd oed a ddywedodd wrth ei daid, "diolch yn fawr am fynd â ni i'r cyngerdd.. Roedd y sain a wnaed gan y côr yn annhebyg i'r hyn a glywais erioed. Roedden nhw'n swnio fel offeryn anferth yn hytrach na 50 o ddynion. Ar ben hynny cawsom seddau blaen."

Yn ddiweddar daeth Ryan i ymddiddori fwyfwy yn ei dreftadaeth Gymreig sy'n rhoi boddhad mawr i'w daid a fu'n treulio sawl awr y olrhain coeden deulu'r teulu Jones.

Gŵyl Fawr y Cymry yn Ohio

Er mor anodd hynny, daeth yr amser i ni ffarwelio â'n cyfeillion o Vermont a throi ein trwynau tua'r gorllewin i Columbus, prifddinas Ohio, pellter o tua 700 milltir. Yno eleni roedd Gŵyl Gymreig Gogledd America sy'n cynnwys holl daleithiau Canada a'r UDA.. Daw pobl sy'n

ymfalchïo yn eu treftadaeth Gymreig i'r ŵyl yn flynyddol a'r tro diwethaf i Gôr y Penrhyn ymweld â'r ŵyl ym 1999 cynhaliwyd hi yn Cincinnati rhyw gan milltir i'r de. Mae'r ŵyl yn cynnwys arddangosfeydd o grefftau gyda thema Gymreig, darlithoedd gan academyddion a phobl arbenigol eraill yn ogystal â pherfformiadau gan artistiaid o Gymru. Yno eleni roedd Gwawr Edwards, y soprano enwog o Geredigion, a'i thad, y tenor Dafydd Edwards yn ogystal â Meinir Wyn Roberts y soprano ifanc wefreiddiol o Gaernarfon. Ymunodd y ddwy i ganu gyda'r côr yn y Gymanfa fawr a gynhaliwyd ar ddiwedd yr wythnos.

Ar ben hynny, ymddangosodd seren newydd ymhlith aelodau'r côr ym mherson ifanc Caleb Rhys, sydd yn aelod cymharol newydd ac sydd newydd orffen yn Ysgol Tryfan fel un o ddisgyblion Owain Arwel. Cymerodd Caleb ran yr unawdydd yn y gân, 'Battle Hymn of the Republic' a gwnaeth gyfiawnder llawn â rhan fu'n eiddo i'r diweddar annwyl Tom Morgan am flynyddoedd. Rhaid diolch hefyd i Ray Roberts o Benmaenmawr am ei gyfraniad yntau yn canu'r unawd yn 'My Little Welsh Home'



Caleb Rhys Jones, un o aelodau ieuengaf y côr a ganodd yr unawd yn 'Battle Hymn of the Republic' yn America.

Credyd i'r arweinydd a'r cyfeilydd

Prif ddigwyddiad yr ŵyl oedd cyngerdd y côr a gellir dweud gyda chryn gyfiawnhad mai dyma'r perfformiad gorau a gafwyd gan unrhyw barti o berfformwyr yn yr ŵyl erioed. Roedd ymateb pawb wedi'r cyngerdd yn frwd ac yn ganmoliaethus. Daeth nifer mawr o Americanwyr at aelodau'r côr i'n llongyfarch ar ein datganiad.

Bu Henry a Donna Davis o Iowa yn sgwrsio gydag Alun a Jan Davies gan ddweud, "Mae gan Gôr y Penrhyn raglen eithriadol o ddiddorol a gwahanol ac mae safon y lleisiau a'ch perfformiad disgybledig yn gredyd i'ch arweinydd, Owain Arwel ac i Fran Davies eich cyfeilydd."

Cafodd Gareth ac Ann Williams o Lanfairfechan sgwrs gyda Garrett Hughes Blethyn a’i bartner Maeve o dalaith Pennsylvania ac meddai Maeve, “ Rydan ni’n dod i’r Wyl Gymreig bob blwyddyn fel rhan o’n gwyliau teuluol a does dim dwywaith amdani, dyma’r wyl orau i ni fod ynddi erioed ac mae hynny’n bennaf oherwydd eich perfformiad chi fel côr.” Ychwanegodd Garrett, “gobeithio y cawn eich clywed eto’n fuan ac mi hoffwn i’n fawr petaech chi’n medru dod i Calgary y flwyddyn nesaf.”

Gyda Frank a Merv Edwards, dau frawd o Texas y bu Dafydd Jones Morris o Fangor yn ymgomio. Ymateb Merv oedd dweud, “Rydw i wedi prynu tri CD o’r côr, un i bob un o’r plant ac un i minnau a’r wraig.”

Meddai Frank, “Roedd hi’n werth y gost o ddod i’r wyl am y cyngerdd hwn yn unig oherwydd roedd cael gwrando ar artistiaid fel Glain Dafydd, John Ogwen, Gwawr Edwards a’r côr gyda’r holl effeithiau gweledol a chlywedol eraill yn brofiad unwaith mewn oes” meddai, cyn gorffen gyda’r geiriau, “Brysiwch yn ôl i’r Unol Daleithiau eto hogia.”

Nyth y Gân

Hydref

Cyn hir daw’r llam cynharaf, ac eillio’r Gollen cyn y gaeaf; Y doe bras oedd hyfryd, braf Yn awr sy’n lliwiau araf.

Perthyn

O do i do hyd y daith Afon o fwrwm afiaith, Yn lli’r ias, yn lli’r oesau, Wylo, cydio dwylo dau.

O lenwi ein calonnau Â gwefr cyfrinachau’n gwau, Cân yw hi, caneuon oedd, Gwenu fel blasu gwinoedd.

Rhoi o bridd yr oriau brau, Mwy ynte na rhamantau. Angerdd mewn cerdd, angerdd cu, Y teilwng, dyna’r teulu.

Rhoi i fun, rhoi i finnau, Yn dynn, mae rhyngom ein dau Oes o fyw, oes o feiau, Oes y da, gogleisio dau.

Rhoi aur afal ar wefus A byw yn ôl bawd a bys. Oriau blys a rhoi cusan, Oriau cu, ac oriau cân.

Y cwlwm bob dydd Calan Yw y clod cyn darfod cân.

Goronwy Wyn Owen

Label o Lerpwl yn Lansio Cerddoriaeth Gymraeg



Hannah ac Owain Morgan efo Fred Harper a Francis Moore Collyer o INCA

Daeth y label o Lerpwl, Salvation Records, i Neuadd Ogwen, Bethesda ar Hydref yr ail i arddangos cerddoriaeth arbrofol Gymraeg ar y cyd â lansio’r adain Gymraeg o’r label. Rhan o hyn oedd lansio sengl Prosiect Cerddorol INCA (gyda’r aelodau gwreiddiol yn ailffurfio i berfformio caneuon oedd wedi’u recordio wyth mlynedd yn ôl) a hefyd rhoi sylw i’r band cyffrous Titus Monk, a gafodd dderbyniad gwych yng Ngŵyl Rhif 6 ym Mhortmeirion eleni.

Roedd cysylltiadau niferus â’r ardal, gydag aelodau o’r ddau fand yn byw ym Methesda. Mae Rhys Jones o Brosiect Cerddorol INCA yn byw yng Ngharneddi, tra bo prif leisydd y grŵp Titus Monk, Adam Quak (yn wreiddiol o Gricieth) hefyd yn byw yng Ngharneddi. Roedd y tad a merch, Dic Ben ac Elin Cain o Gerlan hefyd yn perfformio gyda Titus Monk.

Roedd y gig hefyd yn gyfle i’r label feithrin cysylltiadau gyda’r gymuned. Daeth adnoddau hyrwyddo’r gig gan wirfoddolwyr Mantell Gwynedd (oedd wedi cynnal gig llwyddiannus iawn yn Neuadd Ogwen y mis diwethaf).

Roedd perfformwyr Prosiect Cerddorol INCA yn hynod ffodus i gael dau unigolyn talentog i leisio cymeriadau yn y ffilm roeddynt yn darparu’r sgôr ar ei chyfer. Dau ddisgybl o Ysgol Dyffryn Ogwen Hannah a Owain Morgan a roddodd berfformiadau dawnus iawn a dod a naw Gymreig i ffilm anhysbys Japaneaidd o’r 80au.

Perfformiodd Owain a Hannah ochr yn ochr â cherddorion amlwg rhyngwladol ym mherfformiad Prosiect Cerddorol INCA, yn eu plith Hugh Parry o’r band Cymraeg Estrons, Russell Evans o’r band ffwnc Affro Cluster a Fred Harper o’r band roc gwerinaidd Me and My Friends. Aeth y perfformwyr yn eu blaenau i sinema Canolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth (eu cartref ysbrydol lle dechreuwyd y prosiect yn 2007) lle perfformiwyd gyda gwestai arbennig Ed Holden y rapiwr sydd hefyd yn cael ei adnabod fel Mr Phormula.

Am fwy o wybodaeth <http://prosiectcerddorolnca.com>

Cyngor Cymuned Bethesda

Cyfarfod 30 Gorffennaf

Etholwyd y Cyng. Neville Hughes yn Is-gadeirydd i gynorthwyo’r Cadeirydd, y Cyng. Paul Rowlinson, am y flwyddyn. Nodwyd ei bod yn bryd torri’r gwair ar y llwybrau cyhoeddus fel y gall pobl leol ac ymwelwyr eu mwynhau dros yr haf. Diolchwyd i’r rhai oedd wedi gweithio’n ddiweddar i wneud Llys Dafydd mor ddeniadol ac mae aelodau’r Cyngor yn annog unigolion a mudiadau i wneud mwy o ddefnydd o’r adnodd gwerthfawr sydd gennym ni. Os oes gan bobl syniadau am sut y gallwn ni fywiogi’r Stryd Fawr ymhellach byddwn yn falch o glywed gennych.

Adroddodd y Cyng. Dyfrig Jones fod cynlluniau wedi cael eu dylunio ar gyfer maes parcio yn Gerlan ac y byddai’n ymgynghori â’r trigolion dros yr haf i wybod eu barn. Efallai y byddai rhai pobl yn dymuno rhentu llefydd unigol ar gyfer eu ceir a gellir gosod peiriant ‘talw ac arddangos’ i gyfrannu at gost prynu’r tir ac adeiladu’r maes parcio. Mae parcio yn broblem ddifrifol yn Gerlan ac os hoffech gysylltu â Dyfrig byddai’n falch o glywed eich barn.

Clywodd y Cyngor fod y prosiect i gynhyrchu trydan dŵr wedi cael caniatâd cynllunio gan Gyngor Gwynedd a disgwylir clywed gan Adnoddau Naturiol Cymru am y cais am drwydded i ddefnyddio dŵr yr afon. Trafodwyd ariannu’r prosiect cymunedol hwn a rôl bosibl i’r Cyngor.

Trafodwyd nifer o lythyrau gan gynnwys un gan Gyngor Gwynedd yn rhoi gwybodaeth am grant gan Gist Cymunedol Gwynedd. Mae grantiau hyd at £1500 ar gael i Glybiau Chwaraeon, Neuaddau Pentref, Grwpiau FFitrwydd/Ymarfer Corff a Grwpiau Cymunedol. Os hoffech chi gael mwy o fanylion am y grant, cysylltwch â Chlerc y Cyngor, Donna Watts, yn swyddfa’r Cyngor, 26 Stryd Fawr, Bethesda neu drwy ffonio 01248 602131.

Cyfarfod 24 Medi

Croesawyd Mari Wyn i annerch y cyngor ac ateb cwestiynau ynglyn â theledu cylch cyfyng cymunedol. Nodwyd bod grantiau ar gael i osod camerâu ar y Stryd Fawr er mwyn gwella diogelwch a helpu i leihau fandaliaeth ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol.

Roedd y Cyngor yn falch o glywed bod rhai o hogiau Ysgol Dyffryn Ogwen wedi bod yn tacluso Llys Dafydd fel rhan o’u gwaith ar gyfer gwobr Dug Caeredin ac y bydd mwy o waith gyda phlant ysgol yn digwydd yno yn y dyfodol. Bydd sêl cist ceir (heb y ceir!) yn cael ei gynnal yno rhwng 9.30-12.30 ddydd Sadwrn 31 Hydref.

Derbyniodd y Cyngor gynlluniau oedd wedi’u paratoi gan syrffewyr ar gyfer adeiladu maes parcio yn Gerlan a bydd yn ymgynghori â’r trigolion i gael eu barn cyn penderfynu symud ymlaen ai peidio.

Oherwydd y toriadau llym i gyllideb Cyngor Gwynedd maen nhw’n gorfod ystyried dyfodol rhai o’r gwasanaethau y maen nhw’n eu darparu. Trafododd y Cyngor Cymuned y posibilrwydd o dderbyn cyfrifoldeb am rai o asedau’r Cyngor Sir fel Canolfan Cefnfaes a’r Llyfrgell ond bydd angen llawer mwy o drafodaethau cyn dod i benderfyniad ar y materion hyn.

Derbyniwyd sawl eitem o ohebiaeth, gan gynnwys llythyr gan y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC), am y newidiadau dros dro arfaethedig i wasanaethau merched a mamolaeth. Mae Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn ymgynghori ar y newidiadau hyn ar hyn o bryd ac mae’r CIC, sy’n gorff annibynnol ar y Bwrdd Iechyd ac yn cynrychioli llais cleifion, eisiau helpu pobl i leisio eu barn. Maen nhw’n annog pobl i ystyried cynigion y Bwrdd Iechyd, mynychu unrhyw fforymau ble maen nhw’n cael eu trafod ac yna rhoi eu barn i’r CIC os ydyn nhw’n teimlo’n fwy cyffyrddus gwneud hynny. Bydd y CIC wedyn yn cyflwyno’r holl sylwadau i’r Bwrdd Iechyd. Gallwch gysylltu â’r Cyngor Iechyd Cymuned trwy ffonio’r rhif 01248 679 284 neu anfon e-bost at admin@bcehc.org.uk.

Croesair Medi 2015

AR DRAWS

- 1 Papur 10/- erstalwm (8)
- 5 Undeb athrawon (4)
- 8 Hwyrach, ond nid yn hwyr (6)
- 9 “---- i ni heddiw ein bara beunyddiol” (4)
- 10 Lle (3)
- 12 Cynllun cynilo arian di-dreth (3)
- 13 Yn addas (7)
- 15 “Pant Corlan yr ---“ (3)
- 17 I rifo’i ysgithrau (5)
- 18 Hi a hi (3)
- 19 Yma y bu’r nawddsant, wrth yr afon Brewi (7)
- 20 Rhylllyd (3)
- 22 Mae hwn i’w deimlo pan fydd fel 20 Ar Draws (3)
- 24 Cartref ein cyn-deidiau cynharaf (4)
- 25 Taro, fel ar ddrws (6)
- 27 Un o’r bonedd (4)
- 28 Crefyddol (8)

I LAWR

- 1 Cyflym (4)
- 2 2015 (5)
- 3 Yr hyn nad yw’n debyg (10)
- 4 Gweriniaethwyr militaraidd yr Ynys Werdd (3)
- 6 Yr hyn sy’n deillio o 20 Ar Draws (7)
- 7 To neu nenfwd (8)
- 11 Un o adar y glannau (10)
- 13 “Wrth ei flas mae ----- pwddin” (dihareb) (5)
- 14 Mynd yn lloerig a cholli arni (8)
- 16 Yma mae’r ‘teulu bach’ enwog yn byw (7)

- 21 “Fuoch chi ----- yn morio?” (5)
- 23 W! Mae yn sal. Faint o dabledi rown ni iddo? (4)
- 26 Agosach (3)

ATEBION CROESAIR MEDI
AR DRAWS 1 Megin, 4 Tadcu, 10 Graslon, 11 Dalfa, 12 Y Ffliw, 13, Rwsiaid 15 Ysol, 17 Corddi, 19 Nesta, 22 Opal, 25 Peryglu, 27 Ifori, 29 Efaill, 30 Unawdydd, 31 Turio, 32 Storm
I LAWR 2 Efail, 3 Islywydd, 5 Andes, 6 Cilgant, 7 Egwyl, 8 Un Tro, 9 Pandy, 14 Wlna, 16 Siol, 18 Oernadu, 20 Eliffant, 21 Opteg, 23 Pupur, 24 Simdde, 26 Gallai, 28 Oedwr

Ychydig iawn o wallau a gafwyd y tro hwn. Roedd dau wedi cynnig ‘oedir’ yn lle ‘oedwr’, a chafwyd ‘culchant’ yn lle’r ateb cywir ‘cilgant’. Daeth ‘pandu’ hefyd yn lle ‘pandy’.

Dyma’r rhai anfonodd atebion cywir : David Morgan, Gaynor Elis-Williams, Carneddi; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Gwilyn a Barbara Owen, Bethesda; Ellen Whitehouse, Birmingham; Karen a Tom Williams, Elfed Evans, J.R. a M.A. Jones, Llanllechid; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Dulcie Roberts, Rosemary Williams, Sara a Gareth Oliver, Tregarth; Donna Coleby, Penwortham; Gwyneth Jones, Glasinfryn; Jean Hughes, Talybont; Gareth William Jones, Bow Street; Dafydd Evans, Penisarwaun; Dilys Parry, Derek a Mai Jones, Rhiwlas.

1		2		3		4			5	6		7
		8							9			
10								11				
		12				13						
14												
15		16		17						18		
19								20		21		
										22		23
24					25	26						
27					28							

Atebion erbyn 4 Tachwedd i ‘Croesair Hydref’, Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda. LL57 3PD

Enw:

Cyfeiriad:

Yr un sy’n cipio’r wobr a’r clod y mis yma yw Gwenda Roberts, Gorwel Deg, Rhosmeirch, Môn. LL77 7SJ

Da iawn chi.

CHWILAIR HYDREF 2015

Llefydd yn Sir Ddinbych

A	A	G	W	F	H	R	I	E	J	L	C	M	B	V	B	H	X	J	U
I	S	V	R	S	H	E	I	M	G	V	H	M	D	W	H	U	Z	M	X
V	A	D	D	E	E	R	Y	R	Y	S	N	A	P	A	U	Q	U	S	O
F	R	P	Y	Q	S	Z	G	A	R	H	C	U	L	M	W	N	O	Y	R
D	I	A	S	Z	U	F	C	T	F	D	B	X	L	U	P	W	R	H	C
I	N	Q	H	W	E	R	F	H	O	E	Y	E	A	E	G	N	E	O	M
N	H	A	E	P	E	T	T	O	T	C	B	B	N	C	O	U	U	J	P
B	L	T	I	F	M	I	V	W	R	V	D	C	A	M	B	B	F	R	F
Y	O	G	A	R	J	V	S	I	I	D	R	R	R	X	I	M	H	T	T
C	O	I	S	K	A	Y	O	P	W	R	D	A	M	C	M	K	C	B	O
H	R	R	C	X	N	R	V	R	Y	H	G	S	O	T	M	R	E	F	Y
J	D	Z	H	R	N	B	Y	C	W	L	O	S	N	C	R	A	I	X	N
G	I	L	H	X	E	Y	J	D	E	J	M	B	Y	W	T	E	X	M	D
E	X	O	K	F	L	U	W	P	Y	P	C	Q	N	Y	O	I	L	F	E
S	S	R	Z	Q	E	R	A	R	O	H	C	T	I	D	G	W	S	L	Z
Y	E	B	E	A	G	C	J	K	E	J	R	C	A	L	N	L	R	V	O
W	G	J	P	W	R	P	G	S	O	B	W	N	L	J	J	Q	U	L	F
L	S	V	T	X	E	F	R	O	N	C	Y	S	Y	L	L	T	E	E	U
G	G	H	S	L	B	Z	E	A	F	X	I	W	T	R	Z	H	K	V	A
E	G	B	N	K	A	A	D	S	I	K	O	G	D	H	B	B	S	I	U

Yn y chwilair mis yma mae enw deuddeg lle yn yr hen SIR DDINBYCH. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i’r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân). Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn Tachwedd 4. Bydd gwobr o £10 i’r enw cyntaf allan o’r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna’r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

Mae fy niolch yn fawr i’r Parchedig Ddr. Huw John Hughes, am y testun Glöynnod Byw a ymddangosodd yn rhifyn Medi o’r Llais. Dywedodd wrthyf bod pob un o’r Glöynnod Byw a enwir yn y chwilair i’w gweld yn Nyffryn Ogwen.

Dyma atebion Medi:- Boneddiges y wig; Britheg Berlog; Britheg y Gors; Brithribin Gwyrdd; Copor Bach; Glesyn Cyffredin; GweiriloyN Brych; Gwibiwr Llwyd; Gwyn Mawr; Mantell Garpiog; Mantell Goch; TrilliW Bach.

Dyma enwau’r rhai a gafodd yr ateb cywir:- Barbara Owen, Rhos y Nant; Lois Angharad Hughes, Gerlan; Elizabeth Buckley, Tregarth; Elfed Bullock, Maes y Garnedd; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Doris Shaw, Bangor; Rosemary Williams, Tregarth; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Gareth a Sara Oliver, Tregarth; Mair Jones, Ffordd Bangor; Marilyn Jones, Glanffrydlas; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch.

Enillydd Medi oedd:- Elfed Bullock, 8 Maes y Garnedd, Bethesda.

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?

DYDDIADUR BOREAU COFFI 2015

17 Hydref	Cefnfaes	Sefydliad y Merched Carneddi.
24 Hydref	Neuadd Ogwen	Cymorth i'r Ffoaduriaid.
31 Hydref	Neuadd Ogwen	Eisteddfod D. Ogwen.
07 Tachwedd	Neuadd Ogwen	Merched y Wawr Bethesda.
28 Tachwedd	Neuadd Ogwen	Ffair Nadolig y Blaid Lafur.
05 Rhagfyr	Cefnfaes	Ysgol Feithrin Bethesda.

Pwysig

Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddaru ac yn ymddangos pob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).

Canolfan Cefnfaes
BETHESDA
GYRFA CHWIST

27 Hydref
10 a 24 Tachwedd
am 7.00 o'r gloch

Dewch i fwynhau
nosweithiau difyr

Neuadd Ogwen

Bore Coffi
Arbennig

Apêl Ffoaduriaid
Syria

24 Hydref 2015

10.00 - 12.00

Mynediad £1.00

Neuadd Ogwen

Bore Coffi

Merched y Wawr Bethesda

Sadwrn, 7 Tachwedd

9.30 - 12.00

Mynediad £1.00

Neuadd Ogwen

Bore Coffi
Eisteddfod
Dyffryn Ogwen

Sadwrn, 31 Hydref
10.00 - 12.00

Mynediad £1.00
yn cynnwys panad

Canolfan Cefnfaes

Bore Coffi

Sefydliad y Merched
Carneddi

Sadwrn 17 Hydref

10.00 tan 12.00

Mynediad £1.00

Cyfarfod Blynyddol

Caban Gerlan

Nos Fawrth
11 Tachwedd 2015
am 7.00 o'r gloch
yn y Caban

Croeso i Bawb



Undeb
Credyd
Gogledd
Cymru

Pwynt Casglu Undeb Credyd
Gogledd Cymru

Swyddfa Partneriaeth Ogwen

26 Stryd Fawr, Bethesda
Bob Dydd Mawrth : 12.30 – 2.30
Gwasanaeth Newydd wedi
dechrau ers 30.6.2015
Gwybodaeth:
partneriaeth@ogwen.org neu
01248 602131

YN EISIAU!
GWIRFODDOLWYR!

Mae Neuadd Ogwen angen mwy
o wirfoddolwyr i helpu yn ystod
ein digwyddiadau.

Mae yna amryw o feysydd gallwch
wirfoddoli ynddynt, sef:

- Gwerthu Tocynnau
- Gwirfoddoli yn y Bar
- Gwirfoddoli yn y Caffi
- Rheoli'r Taflunydd yn ein
nosweithiau ffilm
- Stiwardio

Mae gwirfoddoli yn gyfle da i
gryfhau eich CV, i gymdeithasu, ac
yn gyfle i fod yn rhan o brosiect
arbennig yma yn Nyffryn Ogwen.

Cofiwch: Eich Neuadd chi yw hon!

Am ragor o wybodaeth:
Cysylltwch ag Owain ar 01248 208
485 neu 07442 532 746
owain@neuaddogwen.com
neu gyrrwch neges drwy dudalen
Facebook y Neuadd

EGLWYS UNEDIG BETHESDA

LLENWI'R CWPAN

Dewch am sgwrs a phaned

Bob bore dydd Iau
rhwng 10.00 o'r gloch a hanner dydd

Calendr Llais Ogwan

Allan Rwan

Cofiwch ei brynu

£4.00

ar gael o siopau lleol a gan eich
gwerthwr arferol

Marchnad Ogwen

Yr ail ddydd Sadwrn yn fisol

14 Tachwedd
Neuadd Ogwen
9.30am - 1.30pm

25 Tachwedd
Neuadd Ogwen
6.00pm - 9.00pm

12 Rhagfyr
Neuadd Ogwen
9.30am - 1.30pm

Bwydydd, Crefftau, Caffi

www.marchnadogwen.co.uk
Twitter #marchnadogwen
Facebook

Sêl Pen Bwrdd
Llys Dafydd

Dydd Sadwrn 31 Hydref
9.30 - 12.30

Safle am £5.00
I archebu lle,
ffoniwch Caren ar 602509

Mae'n gyfle gwyh i gael gwared â
nwyddau nad ydych eu hangen
mwyach a gwneud ychydig o arian
yr un pryd. Gofynnwn yn garedig i
chi ddod a'ch bwrdd eich hunan efo
chi. Os na fydd y tywydd yn ffafriol
bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal
yn Neuadd Ogwen.

Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen

Nos Lun 9 Tachwedd 2015
am 7.00 o'r gloch

yn Festri Capel Jerusalem

Dr John Ll. Williams

Thomas Telford a Bethesda

£1.50 wrth y drws neu am ddim i
aelodau.

Gair neu ddau

TAIR CYFROL OND UN LLYFR

Daeth dau acw dros yr haf, ac fe ddaw’r trydydd y mis nesaf. Yr un yw’r tri, ac eto nid yr un; yn debyg iawn i’w gilydd, ac eto mor wahanol; y tri yn gyfarwydd, ond eto mor newydd. Tair cyfrol; un llyfr.

Copi ffacsimili o’r Beibl Cyssegr Lân a gyhoeddwyd yn 1588 oedd y cyntaf i gyrraedd acw, wedi ei brynu ar Faes yr Eisteddfod ym Meifod. Cyhoeddwyd y ffacsimili yn 1988 i ddathlu 400 mlwyddiant cyfieithiad yr Esgob William Morgan. Dyma’r tro cyntaf i mi fod yn berchen ar gopi o’r cyfieithiad gwreiddiol hwn gan mai fersiwn diwygiedig ohono, a gyhoeddwyd yn 1620, yw’r ‘Beibl William Morgan’ a fu mor gyfarwydd i genedlaethau o Gymry ers hynny.

Y Beibl Canllaw oedd yr ail. Cyfieithiad mwy diweddar Y Beibl Cymraeg Newydd sydd yn y gyfrol hon. Bwriad y cyfieithiad hwn, a gyhoeddwyd yn 1988 ac a ddiwygiwyd yn 2004, oedd cyflwyno’r Beibl mewn Cymraeg cyfoes a dealladwy. Hwn oedd y cyfieithiad cyntaf o’r Beibl cyfan i’r Gymraeg ers dyddiau William Morgan. Yr hyn sy’n wahanol am Y Beibl Canllaw yw’r nodiadau a chyfeiriadau at rannau eraill o’r Beibl a geir ynddo i’n helpu i ddeall rhai pethau sydd yn ddieithr.

Daw’r llall - beibl.net – acw y mis nesaf. Hwn fydd y trydydd cyfieithiad Cymraeg o’r Beibl cyfan i’w gyhoeddi. Mae wedi bod ar gael ers sawl blwyddyn ar gyfrifiadur a ffôn symudol, ond bydd ei gyhoeddi mewn llyfr am y tro cyntaf yn galluogi mwy o bobl i ddarllen y Beibl mewn Cymraeg cwbl gyfoes a haws o lawer i’w ddeall.

Tair cyfrol ond un llyfr, Y Beibl. Ac er mor wahanol y tri chyfieithiad, yr un nod oedd iddynt, sef galluogi siaradwyr Cymraeg i ddarllen a deall neges y Beibl yn eu hiaith eu hunain. Gyda chyhoeddi’r Beibl Canllaw a beibl.net eleni, daw cyfle arbennig i roi sylw o’r newydd i’r Beibl a’i neges. Tueddwn i edrych yn ôl yn rhamantaidd a sentimental ar gyfieithiad William Morgan a’i ddylanwad ar ein crefydd a’n hiaith dros y pedair canrif ddiwethaf. A siaradwn yn aml fel pe bai’r Beibl yn perthyn yn unig i orffennol ein hiaith a’n cenedl a’n crefydd. Ond mae cyhoeddi’r cyfrolau newydd yn brawf o’r argyhoeddiad sydd gan lawer o bobl fod Y Beibl mor berthnasol ag erioed, a bod modd iddo ddal i gyfarch cenhedlaeth newydd o siaradwyr Cymraeg.

Mae stori Mari Jones a’i thaith i’r Bala i brynu Beibl wedi cyfareddu miloedd ar filoedd o bobl dros y blynyddoedd. Mae’n dal i wneud hynny. Does dim rhaid arbed arian am wythnosau na cherdded chwe milltir ar hugain i brynu’r Beibl Canllaw na beibl.net eleni, ond gallai darllen y naill neu’r llall ddod â’r gwirioneddau mawr am Dduw a’i Fab Iesu Grist yn fyw i chi a minnau o’r newydd.

JOHN PRITCHARD

Gwynedd yn wynebu’r her ariannol – cyfle i ddweud eich dweud

Mae penderfyniad y llywodraeth i wario llawer llai ar wasanaethau lleol yn golygu nad oes gan gynghorau ledled Prydain unrhyw ddewis ond gwneud toriadau sylweddol i wasanaethau lleol.

Hyd yma, mae Cyngor Gwynedd wedi osgoi toriadau o’r fath trwy ganolbwyntio’i holl egni ar weithio’n fwy cost-ffeithiol ac effeithlon. Mae’r ymdrechion hyn, ynghyd â’r codiadau sydd wedi eu cynllunio mewn Treth Cyngor, wedi galluogi’r Cyngor i haneru ei ddiffyg ariannol o £50 miliwn i £25 miliwn, gydag arbedion effeithlonrwydd pellach o £18 miliwn i’w gwireddu dros y blynyddoedd nesaf.

Er gwaetha’r ymdrechion yma, mae pwysau cynyddol toriadau parhaus y llywodraeth yn golygu efallai na fydd yna unrhyw ddewis bellach ond i weithredu toriadau gwerth oddeutu £7 miliwn yn y cyfnod hyd at Mawrth 2018 os ydi’r Cyngor am barhau i allu fforddio talu am y gwasanaethau hynny sy’n hanfodol yng ngolwg pobl leol.

Yn gynnar yn 2016, bydd yn rhaid i gynghorwyr Gwynedd benderfynu pa wasanaethau lleol i’w gwarchod a pha rai i’w torri. Cyn hynny, mae gan bobl leol y cyfle i ddweud eu dweud ar amrediad o opsiynau posib gwerth £12 miliwn y maent yn ei deimlo sydd bwysicaf iddyn nhw ac felly y byddent am eu hepgor o’r rhestr derfynol o doriadau.

Dywedodd y Cynghorydd Dyfed Edwards, Arweinydd Cyngor Gwynedd: “Fel Cyngor, rydym wedi llwyddo i warchod gwasanaethau hanfodol i drigolion y sir ers sawl blwyddyn, i raddau helaeth, diolch i gynllunio ariannol gofalus a chydweithio cadarnhaol gyda’n partneriaid amrywiol.

“Fodd bynnag, nid cyfnod o chwilio am fân arbedion fan hyn a fan draw ydi hi bellach, ond cyfnod lle nad oes gan y Cyngor unrhyw ddewis ond i wneud toriadau sylweddol.

“Ond yn hytrach na chyflwyno toriadau byrbwyll, rydym yn benderfynol o ddal ati i ymateb i doriadau’r llywodraeth drwy ganolbwyntio ar flaenoriaethau pobl Gwynedd. Dyna pam, ein bod am i bobl leol rannu eu barn ar y gwasanaethau penodol y mae arnyn nhw eisiau i ni eu gwarchod os bydd hynny’n bosib gan gymryd rhan yn yr ymarferiad ymgysylltu sirol.

“Yna, pan fydd y broses yma wedi ei chwblhau a’r canlyniadau wedi eu dadansoddi, gall holl gynghorwyr Gwynedd ystyried barn trigolion y sir cyn dod i benderfyniad terfynol ar y toriadau terfynol y bydd yn rhaid eu gweithredu.”

Mae’n bwysig nodi nad oes unrhyw benderfyniad wedi eu gwneud, ac nid yw’r ffaith fod gwasanaeth penodol wedi eu cynnwys ar y rhestr hir o opsiynau posib yn golygu o reidrwydd y bydd yn cael ei gynnwys ar y rhestr derfynol o doriadau gwerth £7 miliwn.

Cyn i gynghorwyr Gwynedd benderfynu pa wasanaethau lleol i’w gwarchod a pha rai na fydd ganddynt opsiwn yn anffodus ond eu torri, bydd cyfle i bobl leol roi eu barn ar y penderfyniadau allweddol hyn drwy:

- ymweld â www.gwynedd.gov.uk/hergwynedd i gofrestru i gwblhau holiadur ar-lein. Bydd pawb sy’n cofrestru diddordeb yn cael gwybod pan fydd yr holiadur ar gael i’w gwblhau yn y dyddiau nesaf; neu

- mynychu un o’r 19 sesiwn galw heibio a gynhelir mewn trefi a phentrefi ledled y sir o hyn hyd 12 Tachwedd. I weld manylion y sesiynau yma, ewch i: www.gwynedd.gov.uk/hergwynedd

- cofrestru i fynychu un o’r 13 fforwm cyhoeddus gyda’r nos lle bydd cyfle i lenwi’r holiadur gyda swyddogion y Cyngor yn bresennol. I gofrestru ewch i www.gwynedd.gov.uk/hergwynedd

Cynhelir sesiynau galw heibio ledled Gwynedd ac ym Methesda - Neuadd Ogwen ar 22 Hydref (11am – 1pm); Bangor - Canolfan Deiniol ar 23 Hydref (10am – 1pm); Caernarfon - Oriel Pendeitsh ar 6 Tachwedd (11am – 2pm).

DIABETES UK CYMRU

Mae Diabetes UK Cymru yn annog rhieni a disgyblion yng Nghymru i enwebu eu hysgol ar gyfer gwobr arbennig mewn perthynas â gofalu am blant a phobl ifanc â diabetes Math 1.

Mae Gwobr Gofal Diabetes Da yn yr Ysgol yr elusen yn agored i’r holl ysgolion yng Nghymru. Gall ysgolion enwebu eu hunain neu gael eu henwebu gan rieni a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Caiff enillwyr eu dewis gan banel asesu, sy’n cynnwys rhieni a chynrychiolwyr o Diabetes UK. Bydd yr enillwyr yn cael eu cyhoeddi’n ddiweddarach eleni a dechrau’r flwyddyn nesaf, a byddant yn cael tlws a fydd yn ddilys am ddwy flynedd.

Mae’n hanfodol fod plant a phobl ifanc sydd â diabetes yn derbyn gofal da yn yr ysgol er mwyn eu helpu i gadw’r lefelau glwcos sydd yn eu gwaed yn unol â’r targed. Yn y tymor byr gall lefelau uchel neu isel o glwcos yn y gwaed achosi i blentyn fod yn anhwylys iawn, ac yn y tymor hir gall lefelau uchel o glwcos yn y gwaed gynyddu’r risg o gymhlethdodau difrifol megis trychiadau, dallineb, a strôc pan fydd rhywun yn hŷn. Mae helpu plant i reoli eu diabetes yn dda hefyd yn allweddol o ran eu galluogi i fanteisio i’r eithaf ar eu haddysg a’u gweithgareddau ysgol.

Dywed yr elusen y bydd y Wobr Gofal Diabetes Da yn yr Ysgol yn dangos bod gofal diabetes da mewn ysgolion yn gyraeddadwy ac yn rhannu arfer gorau ymysg ysgolion, gan helpu i sicrhau bod yr holl ddisgyblion sydd â diabetes yn cyflawni eu potensial academaidd yn llawn.

Gan ei bod yn cydnabod fod gan rai ysgolion bryderon ynghylch sut mae cynorthwyo disgyblion sydd â diabetes, mae Diabetes UK, fel rhan o’i hymgyrch ‘Cyrraedd y Nod: Diabetes Math 1’, wedi creu adnoddau am ddim i helpu rhieni ac ysgolion i sicrhau bod y gofal iawn ar gael.

Yn ogystal â hyn, mae’r elusen wedi lansio Llinell Gymorth Gofal mewn Ysgolion er mwyn rhoi gwybodaeth a chymorth i rieni plant a phobl ifanc sydd â Diabetes Math 1 yng Nghymru mewn perthynas â’r gofal y mae hawl gan eu plentyn ei gael yn yr ysgol.

Dywedodd Cyfarwyddwr Diabetes UK Cymru, Dai Williams: “Mae llawer o ysgolion yng Nghymru yn gweithio’n galed iawn i sicrhau nad yw eu disgyblion sydd â Diabetes Math 1 yn cael eu dal yn ôl o achos eu cyflwr, a’u bod yn cael union yr un cyfleoedd â’u cyfoedion nad oes diabetes arnyn nhw. Rydym am ddathlu beth mae’r ysgolion hyn yn ei gyflawni felly rydym yn galw ar rieni y mae eu plant yn cael gofal da, ynghyd â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yng Nghymru, i enwebu eu hysgolion.

“Hefyd bydd y Wobr Gofal Diabetes Da yn yr Ysgol yn rhoi cyfle inni rannu arferion da ledled ysgolion ac yn helpu i feithrin cysylltiadau cryf rhwng ysgolion. Mae’r ffaith bod cynifer o ysgolion yn gwneud gwaith mor wych o ran cynorthwyo disgyblion sydd â diabetes Math 1 yn dangos bod gofal da yn gyraeddadwy ym mhob ysgol yng Nghymru.”

Mae enwebiadau ar gyfer Gwobr Gofal Diabetes Da yn yr Ysgol eleni ar agor yn awr hyd at ddydd Iau 16 Mehefin 2016. I gael rhagor o wybodaeth am y Wobr Gofal Diabetes Da yn yr Ysgol, ewch i: www.diabetes.org.uk/school-award.

GAIR O'R DOSBARTH

Ysgol Dyffryn Ogwen

Cyfarfod Gwobrwyo

Cynhaliwyd Cyfarfod Gwobrwyo blynyddol yr ysgol nos Fercher, Medi 16. Mae'r cyfarfod yn gyfle i ddathlu llwyddiannau ein disgyblion a'n pobl ifanc yn academiaidd, yn allgyrsiol ac o ran presenoldeb ac ymdrech gyda'u gwaith ysgol.

Y wraig gwadd eleni oedd Ms Manon Steffan Ros – sy'n awdur adnabyddus, ond yn bwysicach na dim yn gyn-ddisgybl o Ysgol Rhiwlas ac Ysgol Dyffryn Ogwen. Cafwyd anerkchiad difyr ganddi a bu'n brysur drwy'r nos yn cyflwyno gwobrau. Yr oedd yn braf iawn hefyd croesawu rhai o bennaethiaid ysgolion cynradd y dalgylch. Wedi'r cyfan y mae llwyddiant y disgyblion yn gymaint o waith yr ysgolion cynradd ac o'n gwaith ninnau yn yr uwchradd.

Mae'r ysgol yn rhoi llawer o bwyslais dyddiau yma ar bresenoldeb da, gan fod llawer o dystiolaeth fod disgyblion gyda phresenoldeb da yn llwyddo'n llawer gwell na'r rhai sy'n colli dyddiau yma ac acw – ac nid yw hynny'n syndod wrth gwrs. Yr oedd yn braf iawn gwobrwyo 34 disgybl am bresenoldeb llawn o 100%. Dyma rai o'r disgyblion -



Roedd hi'n bleser unwaith eto cael cydnabod llwyddiant ein disgyblion. Cafwyd canlyniadau TGAU ardderchog eleni gyda 97% o ddisgyblion blwyddyn 11 yn ennill yr hyn sy'n cyfateb i 5 gradd A*-C. Mae hyn yn llawer uwch na chyfartaledd ysgolion Gwynedd. Y pedwar disgybl a dderbyniodd wobrau am y perfformiadau TGAU gorau eleni oedd Luke Crow, Manon Hughes, Ben Jones a Rhiannon Llwyd. Roedd y 4 yma wedi ennill graddau A* neu A ymhob un pwnc. Dipyn o gamp!

Enillwyr y gwobrau am y perfformiadau Lefel A gorau oedd Bethan Hughes, Mari Davies a Gwynfor Rowlinson, Rhyngddynt lwyddodd y tri yma i ennill 4A* ac 8 gradd A. Canlyniadau anhygoel!

Enillydd Ysgoloriaeth Dafydd Orwig eleni oedd Annest Rowlinson. Mae Annest bellach wedi cychwyn astudio ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae'r ysgoloriaeth yn cael ei dyfarnu'n flynyddol i ddisgybl neu ddisgyblion sydd yn parhau gyda'u hastudiaethau ym Mhrifysgol Cymru.

Enillwyr Ysgoloriaeth Cyngor Cymuned Bethesda i gofio am y Streic Fawr oedd Seirian Puw. Cyflwynir y wobwr yma i ddisgybl sy'n bwriadu parhau gyda'u hastudiaethau ym myd celf neu mewn crefft arbennig. Roedd gwaith Celf Seirian yn wych ac enillodd radd A* yn y pwnc. Mae bellach yn dilyn cwrs sylfaen Celf yng Ngholeg Menai.

Y disgyblion a dderbyniodd y gwobrau am y perfformiad gorau ym mlwyddyn 7 oedd Seren Basinger, Jasmine Griffiths, Miriam Parry, Katie Pipe, Elin Roberts, Dafydd Herbert-Pritchard, Iestyn Owen, Gwydion Rhys, Ben Tatam a Guto Whitehead.



Gwydion, Dafydd, Elin, Katie, Seren, Iestyn, Guto, a Ben

Diolch yn arbennig eleni i Gyngor Cymuned Llandygái am gynnig gwobrau i ddau ddisgybl o bob blwyddyn a ddangosodd ymdrech arbennig ymhob agwedd o'u gwaith ysgol. Enillwyr yma oedd Siôn White, Hannah Jones, Ella Baker, Osian Sanderson, Esme Crowe, Gethin Hughes, David Florence a Manon Jones.

Gwobr arbennig bob blwyddyn yw Tarian Carwyn Thomas a gyflwynir gan ei rieni, Mr a Mrs Emlyn Thomas, er cof amdano. Mae'r darian yn cael ei chyflwyno i ddisgybl sydd yn gwneud cyfraniad arbennig ym maes chwaraeon, a'r enillydd eleni oedd Mathew Buchanan.

Mari Davies oedd enillydd gwobr goffa Frank Rhys Jones, sef y wobwr a gyflwynir gan y Prifathro i ddisgybl sydd wedi gwneud cyfraniad arbennig i fywyd yr ysgol. Fel y gwyr darllenwyr y Llais mae Mari'n hwylwraig arbennig iawn ac yn gwneud hynny ar lefel rhyngwladol. Mae hyn yn golygu ei bod i ffwrdd oddi cartref bron bob penwythnos yn ymarfer. Er gwaethaf yr holl ymarfer a'r holl deithio mae Mari wedi cyfrannu'n llawn i fywyd yr ysgol, yn brif eneth llynedd, ac wedi gwneud yn rhagorol yn ei arholiadau lefel A. Mae Mari'n awr yn cymryd blwyddyn allan yn canolbwyntio ar ei hwyllo cyn mynd i'r Brifysgol i astudio meddygaeth flwyddyn nesaf.

Prif Ddisgyblion



Dyma brif ddisgyblion yr ysgol am y flwyddyn - Josh Williams, Alys Haf, Elin Cain, Sioned Carran a Morgan Owen. Morgan ac Elin yw'r prif ddisgyblion a Josh, Alys a Sioned yw'r dirprwyon.

Ymweliad â Venue Cymru, Llandudno

Ddydd Iau, 24ain o Fedi, aeth disgyblion blwyddyn 10 ac 11 i'r theatr i wyllo cynhyrchiad ardderchog o'r ddrama 'An Inspector Calls' gan J.B. Priestley. Bu'r ymweliad o fudd mawr i'r myfyrwyr gan eu bod nhw'n astudio'r ddrama ar gyfer eu cwrs TGAU Llenyddiaeth Saesneg. Diolch i chi rieni am eich cefnogaeth.

Adran y Gymraeg

Mae hi wedi bod yn ddechrau tymor hynod brysur yn yr adran. Cafodd blwyddyn 13 brynhawn difyr yng nghwmni un o gyn ddisgyblion talentog Ysgol Dyffryn Ogwen, Manon Steffan. Bu Manon yn trafod ei gwaith ymchwil ar gyfer y rhaglen 'Pethe: Lleisiau Ysbyty Dimbach' yn ogystal â thrafod ei nofelau 'Blasu' a 'Llanw' gyda'r myfyrwyr. Braf hefyd oedd croesawu myfyrwyr Ysgol Tryfan aton ni i Ddyffryn Ogwen am y prynhawn.

Ddydd Gwener, yr ail o Hydref croesawyd Mr Arwyn Oliver aton ni i'r adran. Roedd disgyblion blwyddyn 9 wrth eu bodd yn gwrandao ar Mr Oliver yn adrodd ei hanes yn 1965 yn protestio yn agoriad swyddogol argae Tryweryn. Dangosodd luniau i'r disgyblion o'r cyfnod yn ogystal ag adrodd straeon difyr a thrist am yr hyn ddigwyddodd yno. Roedd yr ymweliad hwn yn rhagflas i'r disgyblion o'r wythnos sgiliau pan fyddwn yn ymweld â safle Tryweryn a'r Capel Coffa yno yn ogystal ag ymweld â'r Ysgwrn yn Nhrawsfynydd. Diolch i chi Mr Oliver am ddod draw aton ni.

Roedd hi'n braf gallu mynd â 70 o fyfyrwyr blynyddoedd 10 – 13 i Neuadd Ogwen yn ystod y mis i wyllo cynhyrchiad diweddaraf Cwmni'r Frân Wen, 'Drych'. Bu nifer o'n myfyrwyr yn rhan o gynllun 'Brain' gan y cwmni yn ystod gwyliau'r haf ac oherwydd hynny'n edrych ymlaen yn arw at y cynhyrchiad hwn yn y pentref. Roedd pawb wedi mwynhau perfformiad Bryn Fôn a Gwenno Hodgkins o ddrama rymus Llyr Titus.

Lawrlwythwch apPesda!

Ar ôl derbyn nawdd gan gwmni Trywydd er mwyn cefnogi'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn y gymuned, mae myfyrwyr yr ysgol dan arweiniad y dylunydd gwefannau Mr Nick Pipe wedi creu ap newyddion cymunedol ar gyfer y pentref.

Bwriad yr app yw rhannu newyddion am yr hyn sy'n digwydd ym Methesda. Mae nifer o sefydliadau'r gymuned yn ogystal ag ysgolion cynradd y dalgylch yn rhan o'r cynllun a bydd modd i chi weld eu

newyddion nhw ar yr app.

Mae’r app ar gael ar ddyfeisiadau Apple yn unig ar hyn o bryd gyda’r gobaith y bydd ar gael ar ddyfeisadau Android yn fuan iawn! Gallwch lawrlwytho’r app wrth ymweld â storfa iTunes. Dymunwn ddiolch i Mr Pipe am ei arweiniad a’i gefnogaeth.

Adran Addysg Gorfforol

Canlyniadau

YDO 27 - 10 Tryfan

Ceisiau gan Sean Buchanan, Caio Hughes x2, Iestyn Owen a Dafydd Williams gyda Osian Hughes yn trosi 1 ohonynt.

Bechgyn dan 16

YDO 53 - 17 Tryfan

Ceisiau gan Shaun Thomas x2, David Florence, Kieran Briggs, Les Florence, Gareth Roberts, Shaun Roberts, Jo Bullock, Cai Griffiths gyda Ben Williams yn trosi 4 ohonynt.

Ysgol Llanllechid

Ffarwel a Diolch



Ffarweliwn a diolchwn i Samantha Edwards ar ei gwaith da yn Ysgol Llanllechid. Diolchwn am bum mlynedd o wasanaeth i’n hysgol ar y tîm glanhau. Diolch i chi am weithio’n dawel a hapus a phob dymuniad da i chi i’r dyfodol.

Ffair Hydref

Unwaith eto eleni, roedd Ffair Hydref Ysgol Llanllechid yn un i’w chofio, ac yn llwyddiant ysgubol. Tywynnodd yr haul ar hyd y dydd a chafwyd awyr lachar las. Welsoch chi lun y Ffair ar raglen Heno S4C? Diolch i Elin Fflur am ei chefnogaeth ac am ddod draw i agor y Ffair i ni. Pleser oedd gwrando hefyd ar Fand Pres Llanrug o dan arweinyddiaeth Mr Paul Hughes. Cafwyd cefnogaeth yr ardal a diolchwn i chi am fod mor barod i gefnogi Ysgol Llanllechid pob amser.

Hoffwn ddiolch hefyd i’r Pwyllgor gweithgar am eu holl waith di-flinio yn trefnu a pharatoi at y diwrnod mawr. Codwyd cyfanswm o £1,500 tuag at gronfa’r ysgol a bydd cyfran o’r arian yn cael ei wario fel cyfraniadau tuag at deithiau addysgol.

Cynhelir Bore Coffi Nadolig ar Rhagfyr 5ed yn Nghlwb Criced, Bethesda. Wnewch chi roi’r dyddiad yn eich dyddiadur os gwelwch yn dda? Diolch o galon i bob un ohonoch.

Ysgol Iach

Rydym yn parhau gyda’n gwaith Ysgol Iach, ac yn sgil hyn cafodd pob un o’r disgyblion gyfle i reidio sgwteri o amgylch yr iard nes oeddent yn chwys domen! Pob un mewn helmed, a phob un yn gwisgo padiau penguin a phenelin! Roedd yr athrawon a’r cymorthyddion hefyd wrth eu boddau! Ond, beth ddigwyddodd i Mr Stephen Jones ‘dwch!!

Ysgol Werdd

Mae’r Criw Gwyrdd wrthi’n ddygn ar eu prosiectau ac yn plismona ein defnydd o drydan yn ddyddiol!

Ail-achrediad Gwobr Ysgol Ryngwladol 2015-2018

Pleser yw cyhoeddi fod Ysgol Llanllechid wedi derbyn ail-achrediad y Cyngor Prydeinig: Ysgolion Rhyngwladol am ei gwaith arloesol yn y maes hwn. Canmolodd y Cyngor Prydeinig ein portffolio cynhwysfawr a’r partneriaethau sydd wedi eu sefydlu rhwng Jamaica, China ac India.

Llongyfarchiadau i bawb yn yr ysgol am eu gwaith caled ac ar y llwyddiant arbennig hwn.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau calonogol i Ms Kathryn a Mr Ramji Nyirend ar enedigaeth merch fach yn ddiweddar, sef Evie Rae, - chwaer fach i Mia. Pob dymuniad da i’r teulu oll.

Ymwelydd o Sbaen!

Daeth ymwelydd o Sbaen i’r ysgol yn ddiweddar. Roedd Carlos Manuel Sanchez wedi clywed am waith Ysgol Llanllechid ym maes gwrth fwlio ac yn awyddus i gael dysgu mwy am ein rhaglen gwrthfwlio KIVA, sy’n hannu o’r Ffindir. Treuliodd y diwrnod gyda disgyblion blynyddoedd 5 a 6 gan ymuno mewn gweithgareddau amrywiol. Gohebydd ar gyfer cylchgrawn misol yw Carlos; cylchgrawn sydd â chynulleidfa o dair miliwn o ddarllenwyr. Fe fydd erthygl am ei ymweliad ag ysgol Llanllechid yn ymddangos yn ystod y mis nesaf ac fe wnawn ei osod ar ein gwefan pan ddaw i law. Diolch i Mr Huw Edward Jones am gyd-gordio’r cyfan.

Parc Cenedlaethol Eryri

Fe ddaeth Mr Hywyn Williams o Barc Cenedlaethol Eryri i gyflwyno gwybodaeth am y Parc i’r disgyblion blynyddoedd hynaf. Dechreuodd ei sgwrs hynod o ddifyr trwy holi’r plant am eu lle arbennig hwy, gan mai dyna yw Eryri, - lle arbennig. Siaradodd am waith wardeiniaid y Parc, y sialensau sydd yn eu hwynebu a’r pleser o gael gweithio a byw mewn lle mor odidog. Yn ogystal, cyflwynwyd llyfrynnau ac adnoddau bendedig i blant. Difyr dros ben!

Tatws Bryn

“Tatws, tatws drwy’u crwyn, tatws, tatws dryw’u crwyn!!” Roedd digonedd o datws blasus i’w gweld ar Fferm Tatws Bryn a llwyth o lysiau o bob math. Roedd y Dosbarth Derbyn wedi dotio gweld yr holl lysiau ffres sydd mor llesol i bawb! Diolch i chi Chris am y croeso cynnes a hefyd am y bocs o lysiau i gael dod yn nôl i’r ysgol. A chanlyniad y cyfan? Cawl llysiau gorau erioed!

Lon Bach Odro

Dyma i chi enw sydd yn ein swyno, a mynd ar ei hyd am dro fu hanes rhai o blant y Cyfnod Sylfaen yn ddiweddar. Cafwyd cyfle i hel mwayr duon a sylwi ar fyd natur yn ei ogoniant. Lle braf. Mae plant yr ysgol hefyd wedi bod wrthi yn brysur yn casglu sbwriel ac yn dymuno atgoffa pawb i roi’r sbwriel yn y bin!

Parchedig John Pritchard

Dyna wledd a gafwyd pan ddaeth y Parchedig John Pritchard i gynnal gwasanaeth boreol i ni.

Awdures

Llongyfarchiadau i Anwen Roberts, mam Llion ac Efa Celyn ar ei champ yn ysgrifennu llyfr! Talent a hanner! Enw’r llyfr yw *Monster Diaries* ac mae ar werth yn Siop Ogwen – mynnwch eich copi!

Sain a Goleuni

Bu blwyddyn 4 ar daith i’r Wylfa er mwyn dysgu mwy am Sain a Goleuni. Dwirnod llwyddiannus.

Myfyrwraig

Croesawn ein myfyrwraig, Leah Haf Roberts o Goleg Prifysgol Bangor i’n plith a dymunwn yn dda iddi gyda’i gwaith yn Ysgol Llanllechid.

Ysgol Bodfeurig

Ymwelwyr â’r ysgol

Mae’r mis yma wedi bod yn brysur iawn yn yr ysgol gyda nifer o ymwelwyr yn dod i siarad gyda’r plant! Dyma rai ohonynt...

Martin Daws

Daeth Martin, tad un o blant yr ysgol, atom i gynnal gweithdy barddoniaeth gyda dosbarth Ogwen. Y llynedd roedd Martin yn un o feirdd pobl ifanc Cymru! Cafodd pawb amser gwych yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y dosbarth oedd yn eu helpu i feddwl am farddoni. Diolch Martin!

PC Meirion Williams

Daeth PC Meirion i gynnal sesiynau gyda phob dosbarth. Dysgodd dosbarth Tryfan am fwlio tra bod dosbarth Ogwen wedi trafod ymddygiad gwrth gymdeithasol. Gwersi pwysig iawn yn wir.

Sbectrwm

Cynhaliwyd sesiynau gan Sbectrwm am berthynas iach. Roedd y sesiynau yma yn werthfawr fel rhan o’n amser cylch.

Ymwelwyr yn rhannu profiadau

Mae rhai o rieni a chyfeillion yr ysgol wedi ymweld â dosbarth Ogwen fel rhan o’u gwaith ar ‘Asiantaethau Teithio’. Maent wedi dod i sôn am

eu teithiau o amgylch y byd. Roedd pawb wrth eu bodd yn gwrando ar eu straeon am wledydd gwahanol. Rydym yn ffodus iawn bod cymaint o bobl yn ymweld â'r ysgol ac yn rhoi lluo o brofiadau i bob dosbarth. Diolch i bob un am eu hamser.

Ysgol Rhiwlas

Tymor Newydd

Mae hi wedi bod yn gychwyn tymor eithaf prysur ar ddisgyblion Ysgol Rhiwlas eto eleni. Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn astudio'r thema Elen Benfelen a disgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn astudio Blits, fel thema, ac yn cael cyfle i ddysgu am effaith yr Ail Ryfel Byd ar drigolion Rhiwlas, gan ymchwilio i straeon damweiniau awyrennau lleol a hanesion yr ifaciwis a ddaeth i'r ardal.

Os oes gan ddarllenwyr Llais Ogwan arteffactau neu straeon, a fyddai'n cydfynd â'r thema yma, rwy'n sicr y byddai'r disgyblion yn gwerthfawrogi cael eu gweld/clywed.

Hoffem, fel ysgol, longyfarch Anti Maggie am ddod yn nain, unwaith eto.

Cyfeillion Ysgol Rhiwlas

Cynhaliwyd noson ffilm lwyddiannus yn Neuadd Ysgol Rhiwlas, nos Wener - 25 Medi, o dan ofal Cyfeillion Ysgol Rhiwlas, a cafodd y disgyblion gyfle i wyluo'r ffilm Boxtrolls, gan fwynhau bwyta popcorn a melysion ar yr un pryd.

Disgo

Nos Iau, Hydref 1af, cynhaliwyd disgo yn neuadd yr ysgol i godi arian tuag at yr ysgol. Roedd y disgyblion a'r oedolion yn cael cyfle i wisgo gwisg ffansi a phawb wedi gwneud ymdrech ac yn edrych yn smart iawn. Cafodd pawb hwyl fawr yn dawnsio a gwrando ar y gerddoriaeth. Diolch i Ffrindiau'r Ysgol am godi arian tuag at gostau'r wal ddringo.

Gwefan Ysgol Rhiwlas

Mae safwe newydd Ysgol Rhiwlas bron iawn yn barod i'w chyhoeddi. Byddwn yn cyhoeddi y manylion maes o law. Diolch o galon i'r cyfeillion am eu cyfraniad hael tuag at greu'r safle we yma.

Co-op Ffrwythau a Llysiau

Mae'r Co-op Llysiau a Ffrwythau yn parhau i fod yn weithredol gennym yma yn yr ysgol. £3 y bag am ffrwythau a llysiau ffres, yn wythnosol. Mae angen cyflwyno yr arian a'r archeb i un o aelodau staff yr ysgol, cyn amser cinio ar ddydd Mercher o bob wythnos. a bydd y bag yn barod i'w gasglu ar ôl cinio ar ddydd Gwener o bob wythnos.

Taith gerdded nodedig

Dydd Mercher, Hydref 7, 2015 bu disgyblion Ysgol Rhiwlas yn cynnal taith gerdded nodedig, i godi arian at brynu Pergola/Illwyfan tu allan, ar gyfer yr ysgol. Roedd pawb yn cerdded ar hyd Lôn Las Ogwen a chawsom daith wrth ein bodd gan weld rhyfeddodau ar y ffordd. Roedd pawb wedi gwisgo dillad cynnes ac esgidiau cyfforddus ar gyfer y daith ac wedi dod a digon o fwyd a diod gyda hwy.

Ysgol Abercaseg

Thema Newydd

Wrth gynllunio ar gyfer thema Teganau y tymor hwn gofynwyd am syniadau gan rieni yn ogystal â phlant yr ysgol. Cafwyd ymateb



gwerthfawr a bu'r syniadau a awgrymwyd yn ran ganolog o drefnu trywydd y tymor. Dau syniad poblogaidd oedd hanes teganau, a sut y mae teganau yn gweithio. Er mwyn dysgu mwy am hyn mae'r ysgol wedi trefnu ymweilad gan un o weithwyr Archifdy Caernarfon a gweithdai wedi'u trefnu gan y ganolfan wyddonol Techniquest.

Efelychu'r arlunydd Carys Bryn

Bu dosbarthiadau Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 yn edrych ar waith yr arlunydd Carys Bryn er mwyn efelychu'i harddull liwgar hi wrth geisio creu effaith mwd yn sbancio i bob man. Cymysgwyd paent, tywod a glud a bu'r plant am y gorau'n tasgu'r gymysgedd gan greu llanast yn ogystal â gwaith celf effeithiol.

Sgwad Syniadau



Etholwyd wyth aelod newydd i Sgwad Syniadau'r ysgol. Eu tasg gyntaf fydd trafod cyfnodau amser chwarae'r ysgol. Mae pob dosbarth eisoes wedi lleisio'u barn ynglŷn â'r hyn y maen nhw'n ei hoffi'n ystod amser chwarae, a'r hyn y bydden nhw'n ddymuno'i newid. Y cam nesaf i'r Sgwad Syniadau fydd trafod y syniadau hyn gan benderfynu pa newidiadau y gellir eu cynnig i weddill yr ysgol. Dyma lun o rai o'r aelodau newydd.

Ysgol Pen-y-bryn

Blwyddyn Newydd

Croeso mawr i blant blwyddyn 3 i'r ysgol – 25 ohonynt. Maent wedi setlo'n syth ac yn gweithio'n galed yn barod gyda Miss Jones.

Caerdydd



Cafodd 55 o blant blwyddyn 5 a 6 dridiau anhygoel yng Nghaerdydd ym mis Medi! Dechreuodd y daith yn Aberfan ble cafodd y plant hanes y digwyddiad hunllefus yn Hydref 1966 a gweld y beddi. Yna aethant ymlaen i Wersyll yr Urdd ble setlodd pawb i'w hystafelloedd a chael swper cyn gem o fowlio 10. Ar ddydd Iau, aethant i'r Senedd ble clywsant ddadl am newid y gyfraith ynglŷn ag ysmegu wrth yrru tra'n cludo plant. Yn y p'nawn, aeth pawb i'r Pwll Mawr a theithio 90m o dan ddaear a chael taith o gwmpas y pwll – difyr dros ben. Gyda'r nos, cawsant weld y ffilm Bill. Cyn mynd adref ar y dydd Gwener, cafwyd taith o gwmpas Stadiwm y Mileniwm – gwych! Roedd y plant wedi mwynhau'n arw ac wedi bihafio'n wych. Diolch i bawb a ddaeth ac yn arbennig i Guto ac Iwan o'r Urdd am ymuno a bod yn gymorth mawr.

Castell Penrhyn

Bu dosbarth Tryfan yng Nghastell Penrhyn yn gwneud gweithgareddau a drefnwyd gan staff yr Urdd. Cawsom lawer o hwyl yn chwarae gemau yn yr iaith Gymraeg yn ogystal a chael cyfle i wneud llun Mr Urdd o flaen y castell. Diolch i staff yr Urdd am drefnu ar ein cyfer.

Ysgol Llandygái

Croeso



Erbyn hyn mae disgyblion Meithrin Dosbarth Traed Bach wedi hen setlo yn yr ysgol ac wedi gwneud ffrindiau newydd. Croeso i chi gyd blantos. Croeso hefyd i Mr Dafydd Wyn Jones. Gobeithio eich bod chithau yn hapus yn ein plith yma yn Ysgol Llandygai.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Mr Elfed Morgan Morris sydd wedi cael ei benodi yn Bennaeth dros dro yr ysgol am y flwyddyn nesaf. Hefyd, llongyfarchiadau i Mrs Emma Davies sydd wedi cael ei phenodi yn Ddirprwy dros dro yr ysgol. Edrychwn ymlaen am flwyddyn egniol a llwyddiannus o dan eu harweiniad.

Yr Urdd

Mae sesiynnau yr Urdd wedi cychwyn unwaith yn rhagor eleni o dan ofal y staff bob Nos Lun. Dyma gyfle i'r disgyblion fwynhau ac ymlacio drwy gyfrwng y Gymraeg a hynny tu allan i oriau ysgol.

Priodi

Llongyfarchiadau i Mrs Emma Davies ar achlysur ei phriodas ddechrau Awst. Pob dymuniad da iddi hi a'r gŵr Mr Richard Davies.

Gwirfoddolwyr Darllen

Croeso yn ôl i'n gwirfoddolwyr darllen a chofion cynnes at Mr Richard Llwyd Jones sydd yn derbyn triniaeth ym Manceinion ar hyn o bryd.

THEATR BARA CAWS yn cyflwyno

DIFA

gan Dewi Wyn Williams

Drama newydd heriol gan enillydd y Fedal Ddrama yn Eisteddfod Genedlaethol Llanelli 2014.

Drama ingol, ddoniol a phersonol, sy'n cynnig cyfle i grio a chwerthin crio, yn aml ar yr un pryd. Yn ôl y dramodydd, "Y ffordd orau i galon ddwys yw chwerthin trwy'r bol", ac mae 'DIFA' yn mynd â ni o'r dwys i'r doniol ar helter-sgelter o emosiynau.

Mae'r ddrama'n digwydd ym mhen Oswald Pritchard, cyfieithydd, wrth iddo ymylu ar glogwyn gwallgofrwydd. Mae Os wedi colli ei waith, ac yn ofni colli cariad ei wraig, Mona. Cawn fynd yn ei gwmni i weld ei gyn-fos Peter a'r seiciatrydd Dr King, a chael cipolwg ar ei fywyd priodasol anghonfensiynol, wrth iddo bendilio o un emosiwn i'r llall, gan gynnig sylwadau bachog, difyr am y byd a'i bethau, a hynny mewn iaith rywiog, gref.

Mae hon yn ddrama dwy act, gydag egwyl yn y canol.

Yr actorion: Bethan Dwyfor, Rhodri Evan, Catrin Mara, Llion Williams

Cyfarwyddwr: Betsan Llwyd

Addas i rai 16+

NEUADD OGWEN – Tachwedd 10fed ac 11eg 7.30
Tocynnau: Ffoniwch: 01248 208485

Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Ogwen



Ar ddechrau Medi croesawyd aelodau hen a newydd i'r clwb ac aethpwyd ati i geisio trefnu rhaglen a fuasai'n plesio pawb, gan gymryd barn aelodau hen a newydd ar beth 'roeddant eisiau ei wneud bob nos Fawrth. Er mai newydd ddechrau'r flwyddyn yda ni 'rydym wedi cael ambell i noson ddiddorol a hwyliog. Daeth Gwynedd Watkin atom o Undeb Amethwyr Cymru i sôn am ei waith ac am amal i daith yr oedd wedi gael. Yna daeth Ela Fôn, Cadeirydd newydd Ffermwyr Ifanc Eryri atom i gynnal cwis. Diolch i'r ddau se,f Mr Gwynedd Watkin ac Ela am roi ei hamser i ddod atom.

Yn ystod y mis hefyd cynhaliwyd pwyllgor blynyddol y Sir yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon ac fe fu Iwan Harper, un o'n haelodau yn ddigon ffodus i gael ei wobrwyo yn "Hwsmon Iau y Flwyddyn" am 2014/15. Gweler llun o Iwan yn derbyn y cwpan gan y gŵr gwadd, Mr Dafydd Iwan.

Edrychwn ymlaen yn awr at Ddiwrnod Ffair Aeaf y Sir – diwrnod barnu gwartheg biff, carcass ac ŵyn, a chreffft a'r Eisteddfod Sir.

Rydym yn cyfarfod bob nos Fawrth yn y Caban, Gerlan am 8 o'r gloch ac mae croeso i unrhyw un rhwng 13 a 26 oed ymuno gyda ni. Manylion pellach cysylltwch a Swyddfa'r Sir ar 01286 831214.

JAMIAU CARTRA

ar werth

(Elw at achosion lleol ac elusennau)

Ffoniwch Neville neu Angharad
ar 01248 6008553
neu galwch heibio Siop Ogwen
Stryd Fawr, Bethesda

Hefyd, stondin ym Marchnad Ogwen
25 Tachwedd.

Diwrnod Cneifio yn Nant Ffrancon?

ond fedrwch chi ddweud pa flwyddyn a'u henwi nhw?



Pwyllgor Anabl Merched y Wawr Rhanbarth Arfon

Yn flynyddol mae Pwyllgor Anabl Rhanbarth Arfon yn cefnogi elusen lleol. Eleni, yn ystod tymor 2014 - 2015, yr elusen a ddewiswyd oedd Cronfa leuenctid Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru

Cynhaliwyd Distawrwydd Noddedig ym mis Mawrth a Ffair Haf ym Mehefin. Casglwyd £2500 i'r Gymdeithas ar gyfer prynu offer technegol arbenigol, megis tabledi, sydd gymaint o gymorth i'r rhai sydd gyda nam ar y golwg yn Arfon.



Un o'r plant fydd yn elwa o'r arian yw Cian Wyn Jones sy'n bedair oed ac o Gaernarfon. Gwelir Cian yn y llun gyda Linda, ei fam, ynghyd a Margaret Parry, Cadeirydd y Pwyllgor Anabl, ac Andrew Hinchcliff, Cadeirydd Pwyllgor y Deillion Gogledd Cymru.

Meddai Margaret "Roeddwn yn hynod falch fod y Pwyllgor wedi dewis cefnogi'r Gymdeithas gan fy mod yn colli fy ngolwg ac wedi derbyn cyngor a chymorth amhrisiadwy gan y Gymdeithas ers 2005".

CD Hiraeth am Gymru

Bu'r Canon Aled Williams Llanllwni, Kees Huysmans LLanbed, Caryl Glyn Morris Aberaeron, Huw Davies Llangeitho, Lyndsay Cameron Tregaron, wythawd "Ffrindiau" â Neli Jones yn cyfeilio, yn brysur yn paratoi cryno ddisg ddwy ieithog o emynau dan y teitl HIRAETH AM GYMRU,



dan arweiniad Gerald Morgan, Tregaron yn ddiweddar.

Cewch wrando ar hen ffefrynnau fel "Iesu, Iesu, Rwyf Ti'n Digon" ar Llwynbedw, Calon Lân, Mawlgan a Phantfyedwen er enghraifft, yn ogystal â phedwar emyn newydd o waith Gerald Morgan er cof am bedwar unigolyn : Dewi Sant, Henry Richard, Yr Arglwydd Geraint o Bonterwyd a Gerwyn Morgan, Trebannau, Cellan, yn cael eu canu gan y gwahanol unawdwyr, gyda deuawdau gan Aled Williams a Kees Huysmans a chanu pedwar llais gan "Ffrindiau."

Dyma anrheg wreiddiol ar gyfer y Nadolig i bawb sy'n mwynhau canu emynau, neu i berthnasau a ffrindiau dros y ffin neu dramor sydd am ddwyn i gof atgofion o'u gorffennol.

Cenir un emyn yn dair ieithog – yn Gymraeg a Saesneg gan Huw Davies, Llangeitho ac yn Sbaeneg gan Caryl Glyn Morris. Bu Mary Green, Trevelin, wrthi'n trosi un o emynau Gerald Morgan ar gyfer y ddisg.

Bydd hanner elw'r gwerthiant yn mynd tuag at sicrhau parhâd addysg Gymraeg yn y Wladfa. Helpwch ni i'w helpu.

Cost: £5.99. Ar gael o Medical Hall a'r Swyddfa Bost yn Nhregaron neu drwy'r post oddi wrth:

Gerald Morgan, Hafod Wen, Pwllswyddog, Tregaron, Ceredigion, SY25 6JG.

Cost yn cynnwys cludiant: £ 7.50 - Sieciau yn daladwy i Gerald Morgan.

Ffarm Moelyci

I feithrin bwyd da, bywyd gwyllt a menter lleol

Gweithgareddau Codi Arian
Noson Bingo ar nos Fercher, 21 Hydref, yng Nghlwb Criced a Bowlio Bethesda am 7 o'r gloch.

Gwasanaeth Nadolig yng Nghapel Penuef, Bangor. Nos Sul, 6 Rhagfyr am 7.00. (Rhagor o wybodaeth yn y Llais ym mis Tachwedd.)

Cofiwch hefyd, am y bwrdd gwerthu bob dydd Mawrth a dydd Iau yn yr ysbyty. Diolch yn fawr iawn am y rhoddion caredig ar gyfer y bwrdd gwerthu.

Neges gan Gwm Harry
Mae Ffarm Moelyci bellach dan reolaeth ymddiriedolaeth dir Cwm Harry. Mae'r elusen amgylcheddol yn datblygu i gyfeiriad newydd drwy rentu'r fferm 390 erw ar brydles tymor hir gyda golwg ar ei phrynu. Mae Cwm Harry yn agor y fferm i entrepreneuriaid ac i'r cyhoedd fel ei gilydd. Dros y ddwy flynedd nesaf byddwn yn chwilio am fusnesau hen a newydd i ymsefydlu ym Moelyci. Mae nifer o fentrau wedi cychwyn yn barod gyda'r nod cyffredin o hybu bwyd da a chymuned dda. Bwriedir ailgychwyn ffermio ym Moelyci yn y dyfodol agos. Mae gofod swyddfa hefyd ar gael i'w logi. Felly, os oes gennych fusnes gwledig neu fusnes bwyd cysylltwch ag Adam ar 07791122491.

Siop a Chaffi



Mae'r siop a'r caffi'n mynd o nerth i nerth. Rydym bellach yn cynnig ystod eang o gorbys sych, reis, cnau a phob math o gynhwysion coginio sydd i gyd yn ddi-gm a rhai yn organig. Erbyn hyn mae'n bosib gwneud eich siopa i gyd yn y Ffarm. A beth am sbwyllo'ch hun a chael panad a chacen? Mae'n grêt gweld pobol yn cyfarfod ffrindiau a tharo ar ei gilydd yn y lle cyn braf rydym wedi'i greu. Mae yma deimlad o gymuned, a chriw da o gwsmeriaid rheolaidd.

Mae'r Nadolig ar y gorwel! Ia, dw i'n gwybod! Mae Jo a Dave wedi rhoi rubanau ar y coed 'Dolig fydd yn cael eu gwerthu yn y siop ym mis Rhagfyr. Mwy am hyn maes o law!

Oriau agor y Siop/Caffi
Gwener 11:00 – 18:00
Sadwrn 9:30 – 17:00

Mae Wi-Fi am ddim ar gael yn y caffi

Yr Ardd Fasnachol
Mae'r hydref wedi cyrraedd! Mae'r nosweithiau'n oerach ac yn hirach ac mae newid yn y gwynt. Mae'r gwelâu'n cael eu clirio a chnydau'r gaeaf yn cael eu plannu.

Rydym yn brysur yn cynaeafu llysiau yn yr ardd fasnachol ac yn eu gwerthu mewn bocsys llysiau ac yn y siop. Ar ben hyn, mae stondin gonestrwydd wrth fynedfa Moelyci lle y gallwch gael blodau a llysiau wrth fynd heibio. Diolch yn fawr i bawb sy'n defnyddio hwn. Rydym hefyd yn gwerthu cynnyrch yn yr Ardd Fasnachol ar ddyddiau pan fydd y siop ar gau.

Rydym hefyd wedi bod yn brysur yn adeiladu yn yr ardd fasnachol. Bellach mae yna lecyn dan do gerbron caban y swyddfa - diolch, Dan - ac mae Lucy wedi bod yn brysur iawn yn cydlynu adeiladu man gwerthu yn y cae ffrwythau. Diolch i bawb sydd wedi helpu gyda'r fenter - mae popeth yn edrych yn wych! Ond nid dyna'r cyfan - cyn bo hir bydd gennym bolidwnnel newydd sbon ar gyfer meithrin planhigion. Dewch draw i gael golwg ar y datblygiadau newydd hyn. Rydym bob amser yn falch o gael croesawu gwirfoddolwyr newydd ar ddydd Iau rhwng 10am a 4pm. Dewch i ymuno â ni!

Cosyn Cymru
Mae'r cawsiau dafad cyntaf wedi cyrraedd eu cartref newydd ar Ffarm Moelyci. Fydden nhw'n hapus? Maen nhw'n ofnadwy o anodd eu plesio... Mae'n rhaid cael y tymheredd, y lleithder a llif yr aer yn berffaith er mwyn datblygu'r holl flasau gwahanol. Ond mae popeth yn iawn hyd yn hyn, gobeithio.

Mae yna 'Olwyn fawr' gyda chroen lliw hufen, yn debyg i Manchego neu Ossau Irraty. Wedyn mae yna 'Brefu' sy'n gaws bach meddal ychydig fel Chaource efo blas lemon a madarch. Gyda lwc mi fydden nhw'n cyrraedd siop Ffarm Moelyci cyn bo hir.



Yn y cyfamser mae yna flasau hufen iâ dafad newydd... lemon, siocled a fanila yn ogystal â mêl ac iogwrt ffrwythau wedi'i rewi. Maen nhw i gyd fel rhai cartref - yn cynnwys dim ond llefrith dafad, hufen, wyau, siwgr naturiol a blasau ffres. Hefyd mae yna iogwrt trwchus a blasus mewn potiau bach gwydr. Mae popeth ar gael yn siop a chaffi Ffarm Moelyci - brysiwch draw!

Cegin Addysgu / Arlwyo
Mae'r hen 'sgubor bellach wedi'i hatgyweirio ac yn fan ardderchog ar gyfer cyfarfodydd neu gynadleddau bychan. Mae'r cyfleusterau'n cynnwys cegin o safon broffesiynol sydd ar gael i'w llogi ar gyfer cynhyrchu bwyd, dysgu neu arlwyo ar gyfer digwyddiad. Diolch yn fawr iawn i Gronfa Cymunedau'r Arfordir am gyllido'r project ac i dîm Moelyci am lwyddo i wneud lle i bopeth!

vSgyrsiau Min Nos yn Ffarm Moelyci
Dymuna Ffarm Moelyci ddiolch yn fawr iawn i John Harold, Cyfarwyddwr Cymdeithas Eryri, am ei sgwrs ar 'Hanes Naturiol Fferm Fynydd yng Nghymru' ym mis Medi.
Pob Mis yn 'sgubor Ffarm Moelyci. Mynediad £2 gan gynnwys panad a bisged!

Sgyrsiau sydd i ddod
27 Hydref, 19:30
Prosiect y Wiwer Goch
Dr Craig Shuttleworth

24 Tachwedd, 19:30
Pori Cynaliadwy
Hillary Kehoe, Cydlynnydd Cynllun Pori Lleol Ynys Môn

Nodyn i'r dyddiadur
• Gwneud canhwylau â chŵyr gwenyn
17 Hydref - 14:00 - 17:00

Dewch draw i ddysgu am gŵyr gwenyn. Byddwn yn egluro sut mae gwenyn yn ei gynhyrchu, a sut rydyn ni'n ei gasglu a'i lanhau cyn ei ddefnyddio. Wedyn byddwn yn gwneud ychydig o ganhwylau.

Cofiwch ein diwrnodau gwirfoddoli
☐ Gardd Fasnachol pon dydd Iau 10:00 tan 16:00
☐ Gweithio'r Tir pob dydd Mawrth 10:00 tan 16:00
☐ Siop a Chaffi pob dydd Sadwrn 10:00 tan 16:00

Mulod Eryri ym Moelyci
Ers dechrau mis Awst, mae mulod Eryri wedi bod yn mwynhau porfa a llonyddwch Moelyci. Mae Mulod Eryri yn gweithio gyda phobl i hyrwyddo iechyd a lles trwy drefnu sesiynau cyswllt a theithiau cerdded yng nghwmni'r mulod addfwyn.

Dydyn ni ddim yn cynnig reidiau ar gefn mul. Yn hytrach, i annog ymwelwyr i grwydro cefn gwlad Cymru, mae gan y mulod ystarnau i gario picnic. Mae Walter, Winifred a Jenny, y mulod ym Moelyci, wedi cerdded yn

rheolaidd ar hyd y Llwybr Treftadaeth gydag ymwelwyr, ac weithiau wedi mentro ymhellach.

Mae Mulod Eryri hefyd wedi bod yn gweithio gyda sefydliadau megis Teulu Ni a Gweithredu dros Blant sy'n cynnig gweithgareddau ar gyfer unigolion a grwpiau. Mae cyfleusterau Moelyci wedi caniatáu inni gynnal Clwb Dydd Sadwrn yn cynnig sesiynau theori ac ymarferol ar gyfer pobl ifanc sydd â diddordeb mewn mulod.

Ar ddiwrnod Gŵyl y Banc fis Awst trefnwyd diwrnod agored ar gyfer ein gwirfoddolwyr a chefnogwyr. Cafodd y mulod gyfle i gyfarfod pobl newydd a hen ffrindiau a fu'n mwynhau'r coffi yn y caffi. Roedd yn ddiwrnod llwyddiannus ac rydym wedi trefnu digwyddiad tebyg ar gyfer Dydd Sul 25 Hydref cyn i'r cytundeb pori ddod i ben. Edrychwn ymlaen at eich gweld bryd hynny. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Ruth neu Janet ar snowdoniaddonkeys@btinternet.com

CYFEILLION YSBYTY GWYNEDD

Cyfanswm elw'r te prynhawn a gynhaliwyd yng nghartref Mr. a Mrs. Glyn Jones, Coed y Maes, Penrhosgarnedd ar 27 Awst oedd £841.00.

Yn ein cyfarfod ar nos Lun, 14 Medi, penderfynodd y pwyllgor brynu gwerth £37,667.35 o offer i'r ysbyty, fel â ganlyn:-

- Cais 1: "Ymchwiliadau Cardiollegol" (3 x £2,013.00 yr un) £6,039.00
- Cais 2: Eitemau "Cynnal Dementia" £479.00
- Cais 3: Bi-PAP NIV Phillips Trilogy 202 £7,846.35
- Cais 4: Offer Mymomectomi Hysterosgopig £5,000.00
- Cais 5: "Profion Ymarfer Cardio-ysgyfeiniol" i Ysbyty Gwynedd £15,000.00
- Cais 6: "Llif tawelPaediatric" £1,293.00
- Cais 7: Gofal Strôc £2,010.00

Cyfanswm **£37, 667.35**

Mae hyn felly, yn golygu bydd yr aelodau yn brysur dros y misoedd nesaf yn cynnal gweithgareddau codi arian.

Yn ystod yr haf bu pedair aelod, sef Jean, Margaret, Kath a Ceinwen yn cynnal "Tombola'r Haf" gan wneud elw o £1,033.34.

Mae'r pwyllgor yn ddiolchgar iawn iddynt am eu gwaith. Maent yn awr wedi dechrau ar eu "Tombola Nadolig".



Siop Trin Gwallt a Harddwch

Bethesda 600094

Yn arbenigo mewn trin gwallt
merched, dynion a phlant.
Cynghori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio
(rasal "cut throat")

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
losgi coed

01248 605207

Pob math o waith trydanol

Huw Jones

Ymgymwr Trydanol

Trydanwr cymwysedig gyda
phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
Ffôn: 01248 602480

L. Sturrs
a'i feibion
sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR

Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda

Ffôn: 600953

lsturrs@googlemail.com

Y Douglas Arms

* Lluniaeth i Bartion * Te Cynhebrwng *
* Gardd Gwrw * Te a Choffi *
Oriau Agor
Llun – Gwener: 6.00 – 11.00
Sadwrn: 3.30 – 12.00
Sul: Pnawn 1.00 – 4.00, Hwyr 8.00 – 11.00
01248 600219
www.douglas-arms-bethesda
Cewch groeso cynnes gan
Gwyn a Christine

Gareth Williams
Trefnydd Angladdau

Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda

Ffôn: (01248) 600763 a 602707
GWASANAETH DYDD A NOS

Oriel Cwm
Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o
bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882
RICHARD S. HUMPHREYS



Malinda Hayward
(Gwniadwraig)

Awel Deg
Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnïo
- trwsio, altro ac ati -

Ffoniwch
01248 601164

CAFFI COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda

Ffôn: 01248 602550
karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)

Cinio arbennig bob dydd Iau

Bwyd i'w gario allan

Gwasanaeth arlwygo ar gyfer
partion o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)

Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)

Rydym yn croesawu partion
o bob math – dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

Londis Bethesda

☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

JOHN ROBERTS

Paentiwr
Papurwr
Teilsiw'r



Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda 01248 600045	Cludiant am ddim yn lleol	Mynytho 01758 730768
Caernarfon 01286 676070	Stoc helaeth ac amrywiol	Llanrwst 01492 640794
Llangefni 01248 751677	Croeso i gyfrifon masnachol	Siop yn 01492 640794
	Staff cyfeillgar a phroffesiynol	Llanrwst
	Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y	

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a'r Siop yn Llanrwst

CHWARAEON

CRICED

Mae Sean Buchanan, 19 Bryn Caseg, wedi bod yn chwarae criced i ddim dan 12 Cymru yn ystod yr haf. Bu mewn Gwyl Griced yn Taunton ble chwaraeodd yn erbyn nifer o dimau o siroedd Lloegr gan wneud cyfraniad pwysig fel bowliwr tuag at fuddugoliaeth Cymru. Da iawn Sean a thîm Cymru!

**Golygydd mis Tachwedd fydd Derfel
Roberts, Llys Artro, 84 Ffordd
Carneddi, Bethesda, LL57 3SG.
01248 600965.
hylaw@btinternet.com**

**Pob deunydd i law erbyn dydd Mercher,
04 Tachwedd, os gwelwch yn dda.**

Cystadleuaeth Garlleg Moriarty Thomas



Dr. Gareth Jones yn derbyn y tlws oddi wrth Mrs. Myfanwy Owen.

Ar ddydd Sadwrn, 5 Medi, cynhaliwyd 6ed Cystadleuaeth Garlleg Moriarty Thomas yng Ngwesty'r Douglas, Bethesda. Daeth 24 cystadleuwyr o bob oed i herio'i gilydd – Len oedd yr hynaf (yn ei 90au) ac Abigail, 10 oed, oedd yr ieuengaf. Gwnaeth y beirniaid, sef Adrian Griffin, Chris Bailey- Hughes, Andrew Carson a Chris Thomas, waith gwych yn blasu a dadansoddi yr holl fylbiau amrwd. Yr enillydd oedd Dr. Gareth Jones, gyda Linda Hughes yn ail a Malcolm Creasey, enillydd llynedd, yn drydydd.

Cododd y gystadleuath £310.00 ac mae Dr. Gareth wedi dewis Cymdeithas Eryri fel yr elusen fydd yn derbyn yr arian.

Cedwir y tlws gydag enwau'r enillwyr arno, ac a roddwyd gan Gwmni Greenhough, yn y Douglas o flwyddyn i flwyddyn, ond mae pob enillydd wedi derbyn plac llechen i'w gadw gartref. Diolch i Andrew o "Northern Welsh Quarries Limited" am ei haelioni.

Mae Gwyn a Christine yn ddioelchgar iawn i noddwyr y digwyddiad, Cwmni Greenough, am eu haelioni eleni, ac am eu haddewid i'w noddi eto yn 2016. Diolch hefyd i'r pedwar beirniad dewr am ddioddef yn llawen blasu'r holl arllwg amrwd : Adrian, Andrew, Chris a Chris.

Diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd i wneud y digwyddiad blynyddol hwn yn un mor hwyllog. Dewch eto'r flwyddyn nesaf!

S4C

35 DIWRNOD

9.00

8 Tachwedd

**Rhyw, twyll, a throsedd...
diwrnod arferol o waith.**

Noddir gan



#35Diwrnod
s4c.cymru